



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 22AIN MEHEFIN, 2021**

Lleoliad

**Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**01286 679870**

**NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 14 Mehefin 2021)

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards  
Aled Ll. Evans  
Elin Walker Jones  
Elfed Williams

Alan Jones Evans  
Judith Mary Humphreys  
Olaf Cai Larsen  
Beca Brown

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones  
Kevin Morris Jones  
Eirwyn Williams

Eric M. Jones  
John Pughe Roberts

#### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

#### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfnod 2021/22.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfnod 2021/22.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 29ain Ebrill, 2021 fel rhai cywir.

## 7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

12 - 17

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith.

## 8. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: PLANT A CEFNOGI TEULU

18 - 22

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith, a sut yr ydym yn mynd ati i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwaith.

## 9. YMGYNGHORIAD POLISI CENEDLAETHOL SEILWAITH IEITHYDDOL Y GYMRAEG

23 - 24

I gyflwyno papurau'r Ymgynghoriad er gwybodaeth ac er mwyn gwahodd sylwadau gan yr aelodau fydd yn cyfrannu at ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

25 - 50

I gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'w gymeradwyo gan yr Aelodau.

## 11. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG A'R GYFUNDREFN ADDYSG DROCHI

51 - 107

I ystyried a chynnig sylwadau ar gynnwys y Cynllun Strategol drafft a chynnig sylwadau ar y cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

**PWYLLGOR IAITH**  
**29 Ebrill 2021**  
**10:00 yb**

---

**YN BRESENNOL**

**Y CYNGHORWYR:** Beca Brown, Elwyn Edwards, Alan Evans, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Eric M Jones, Cai Larsen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams ac Elfed Williams.

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllïan Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Llio Mai Hughes (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg), Lowri Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWDYD:** Y Cyngorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol) ac Edgar Wyn Owen (Cadeirydd y Cyngor).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

Huw Williams (Pennaeth YGC).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones ac Kevin Morris Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 28ain Ionawr, 2021 fel rhai cywir.

Rhannodd y Cadeirydd ymateb a dderbyniwyd gan yr AS Ken Skates. Nododd y llythyr y bydd penderfyniad ynghylch dyfodol y rhaglen Arfor yn cael ei wneud wedi iddynt dderbyn gwerthusiad o'r rhaglen bresennol.

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG 2019 - 2023: CYFRANIAD ADRAN YMGYNGHORIAETH

Cyflwynodd y Pennaeth Adran YGC ei adroddiad yn amlygu'r camau a gymerwyd o fewn yr adran er mwyn hybu'r Gymraeg ymysg staff. Cododd y pwyntiau pwysig fel a ganlyn;

- Nododd bod yr adran wedi profi llwyddiant drwy gydweithio gyda'r Swyddogion Iaith er mwyn eu rhoi ar ben ffordd gyda'u hymdrechion.
- Eglurodd bod staff wedi cwblhau Hunan-asesiadau iaith i'w clymu i fewn i'r drefn ac o ganlyniad wedi sylweddoli ba pwyslais sydd ar ddefnyddio'r iaith.
- Ategododd bod canran uchel o staff di-gymraeg yn yr adran o gymharu ag adrannau eraill o fewn y Cyngor.
- Rhannodd bod 92% o aelodau staff yn cwrdd â gofynion eu swydd ond eglurodd ei bod wedi cymryd peth amser i gymryd fan hyn drwy wersi a dulliau eraill.
- Nododd bod y cynllun cyfeillion wedi helpu i sicrhau bod defnydd iaith yn cael ei hyrwyddo yn naturiol ymysg siaradwyr Cymraeg.
- Rhannodd enghraifft o un swyddog a ymunodd yn ystod y cyfnod clo gan nodi bod Swyddog arall yn ei chefnogi i gychwyn sgysiau yn y Gymraeg.
- Eglurodd mai asgwrn cefn y llwyddiant yw gwersi Cymraeg drwy *Teams* a drwy'r bartneriaeth â'r Brifysgol - nododd bod hyn ar y cyd efo cyswllt rheolaidd gyda swyddogion iaith.
- Rhoddodd bwyslais ar yr aelodau staff canlynol; Alex Jones, Nansi John ac Owain Angus Duncan sydd wedi llwyddo â'u hymdrechion ac o ganlyniad i hynny wedi ennill gwobr goffa Dafydd Orwig.
- Nododd o 2014 ymlaen bod staff yn mynd i gyfweiliadau a chyfarfodydd mewn perthynas â chymwysterau proffesiynol ac yn Defnyddio'r Gymraeg

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Gofynnodd aelod beth yw polisi penodi'r adran er mwyn sicrhau penodi staff sy'n siarad Cymraeg. Ategodd y byddai'n werthfawr bod mewn sefyllfa lle gall y Cyngor ysgogi mwy o siaradwyr Cymraeg i ddilyn gyrfaoedd technegol ac arbenigol er mwyn osgoi'r trafferthion penodi.
- Diolchodd yr aelod am y cyflwyniad ac yn ychwanegol at y Swyddogion Iaith am weithio'n ddiwyd ym mhob adran.
- Gofynnodd a oedd cyfle i ddylanwadu ar y rhan ddeiliad a chontractwyr allanol i ddefnyddio Cymraeg pan maent yn delio a'r adran YGC.
- Holodd aelod faint o staff sy'n gweithio o fewn yr adran er mwyn gosod cyd-destun i'r ffigyrau oedd wedi cwblhau'r hunanasesiad.
- Awgrymodd aelod y dylai'r Cyngor weld yr elw buan o'r cydweithio sydd wedi bod rhwng y Cyngor a'r system addysg leol i hyrwyddo pynciau STEM ymysg disgyblion lleol.
- Mynegodd aelod bod yr adroddiad yma yn dod gan adran sy'n wynebu llawer mwy o heriau nag eraill i benodi siaradwyr Cymraeg oherwydd y sgiliau penodol sydd angen.
- Ategodd at hyn gan ofyn ba ymdrech sy'n cael ei wneud i gyrraedd y gweithlu arbenigol ar draws Gymru at ddibenion penodi.
- Holodd aelod sut mae'r adran yn sicrhau defnydd o dermau technegol Cymraeg cywir.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau nododd y Pennaeth Adran YGC;

- O ran swydd disgrifiad mae ymgais barhaol i sicrhau bod penodiadau yn cyrraedd y dynodiad iaith ofynnol, fodd bynnag nid oes gan bob arbenigwr y maes sgiliau iaith. Parhaodd gan nodi bod yr adran yn ceisio trosi siaradwyr Saesneg i'r Gymraeg drwy gynnig gwersi.
- Datganodd bod gan yr adran ymgais i sicrhau bod staff yn rhugl y Gymraeg a bod y rhai sy'n llwyddo yn parhau i ddefnyddio a dysgu mwy am y Gymraeg.
- Ategodd bod yr adran YGC yn gweithio i sawl corff er mwyn dod ag arian i'r Cyngor ac felly yn gwerthu sgiliau peiranyddol a thechnegol. Parhaodd i nodi nad oedd y sgiliau gan siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur.
- Fel datrysiaid i hynny, nododd y Pennaeth eu bod yn cydweithio efo Coleg Menai/ Llandrillo a Phrifysgol Glyndŵr er mwyn creu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddilyn gyrfaoedd technegol ac arbenigol.
- Rhannodd her arall sy'n wynebu'r adran, sef bod cyflogau Cyngor o fewn yr adran yn uchel yn lleol, fodd bynnag bod yna gystadleuaeth yn genedlaethol gan i gyflogau tueddu i fod yn uwch ac yn denu staff Cymraeg.
- Nododd bod cytundebau yn nodi bod y Gymraeg yn flaenoriaeth, a rhoddir pwyslais ar yr iaith wrth ymdrin â chwmnïau. Rhodddwyd enghreifftiau o gwmnïau o Loegr yn datblygu ymwybyddiaeth iaith o ganlyniad i gydweithio â'r adran.
- Cytunodd bod angen amryw o ddulliau er mwyn hyrwyddo a hybu'r Gymraeg o fewn yr adran gan ei fod yn bwysig cadw'r Gymraeg yn iaith fyw sy'n cael ei weld yn addasu ymysg meysydd amrywiol.

**PENDERFYNWYD;**

- a) **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
- b) **Dymuno'n dda i'r adran yn eu hymgais barhaol i hyrwyddo defnydd y Gymraeg ymhellach ymysg eu staff.**

## 6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG 2019 - 2023: CYFRANIAD ADRAN ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynodd y Pennaeth Adran Economi a Chymuned ei hadroddiad gan nodi'r ymatebion a phrif bwyntiau o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn yr adran. Ateggodd bod yr adran Economi a Chymuned mewn sefyllfa wahanol i adran fel yr YGC gan fod rhan fwyaf o'r staff yn gallu'r Gymraeg ac yn ei ddefnyddio oherwydd natur eu gwaith.

Cychwynnodd gan bwysleisio bod 97% o staff yr adran wedi cyrraedd y dynodiad iaith ddisgwyliedig. Ateggodd bod mwy o waith i wneud ymysg staff sydd wedi bod yn yr adran am amser hir ac yn gallu'r Gymraeg ond ddim yn ei ddefnyddio. Nododd nad oedd heriau recriwtio a bod staff newydd ieuengach yn tueddu i ddefnyddio'u Cymraeg yn naturiol.

Cyfeiriodd at yr adroddiad sy'n cynnwys dolenni perthnasol ar gyfer mwy o wybodaeth ynghylch hyrwyddo'r iaith. Tynnodd sylw at y prif bwyntiau fel a ganlyn;

- Bod gan yr adran gobeithion y byddai modd cyllido dilyniant i gynllun Arfor os bydd arian ar gael.
- Fuodd cynllun i gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i fusnesau sy'n anghyfarwydd a diwylliant Cymreig yn un llwyddiannus er mwyn hybu'r Gymraeg o fewn y sector Twristiaeth.
- Ymfalchiodd yn y gwasanaeth llyfrgelloedd lle mae 100% o staff yn siaradwyr Cymraeg ac yn ei ddefnyddio'n naturiol. Fel gweithwyr yn y gymuned, cydnabuwyd bod ganddynt rôl ychwanegol fel hyrwyddwyr iaith ymysg llyfrgellwyr. Rhannodd lythyr gan un o drigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac wedi ymddiddori yn yr iaith o ganlyniad i'r ymdrechion gan y staff.
- O ran cytundebau gyda chwmnïau allanol, nododd mai'r gwasanaeth hamdden oedd yr her fwyaf iddynt er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg, yn arbennig mewn ardaloedd llai Cymreig yn y Sir.
- Eglurodd bod hyn yn parhau i gael sylw wrth i gwmni Byw'n Iach gymryd yr awenau a fod y cwmni wedi cymryd camau bras i ymateb i'r sefyllfa. Sicrhaodd fod yr Adran yn monitro fod y cwmni yn glynu at bolisi iaith y Cyngor fel rhan o'u contract
- Nododd bod rhwystrau mewn rhai achosion, er enghraifft mae diffyg Cymraeg mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cenedlaethol a rhagwelir bydd diffyg Cymraeg mewn cyfarfodydd yn dod yn fwy o her gyda Llywodraeth Prydain pan yn trafod grantiau, gan nad ydi'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol dros ddyrannu'r arian yma i'r dyfodol.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- Mynegodd aelod ei thristwch na fydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddyrannu cyllid i raglenni newydd ac ategodd y byddai effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.



- Croesawu twristiaeth gynaliadwy - gwerthu lle fel cyrchfan yn negyddol, neu ormodedd yn dinistrio beth mae'r bobl yn dod i'w cael.
- Ymfalchiodd bod newid pwyslais ar y math o dwristiaeth sy'n fuddiol i ardal fel Gwynedd sef y math cynaliadwy.
- Cytunodd aelod bod angen i gwmni Byw'n lach ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg eu staff. Gofynnodd sut mae hyn yn cael ei fesur a herio gan yr adran.
- Gofynnodd aelod am fwy o wybodaeth ynghylch y gwahaniaeth fydd rhwng delio a grantiau o Lundain yn hytrach o Gaerdydd a faint o ddylanwad fydd gan y Cyngor i fynnu defnydd o'r Gymraeg. Ategodd bod eisoes enghraifft gyda'r Bwrdd Uchelgais Economaidd sy'n cael ei arwain fwy gan San Steffan ac mae'n dangos bod dylanwad negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Cyfeiriodd aelod at staff y llyfrgelloedd fel llysgenhadon naturiol yn eu rôl a chwestiynodd a yw'n werth cynnwys hyn yn y swydd ddisgrifiad ar gyfer y dyfodol.
- Cyfeiriodd aelod at y galw am wersi Cymraeg yn mynd drwy'r to, gan bobl sydd eisiau dod ar eu gwyliau. Ategodd eu bod yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth sy'n cyfoethogi eu profiad o fod yng Nghymru.
- Nododd aelod ei fod yn rhan o brotocol i bobl yn yr adrannau wybod bod disgwyliad iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau a'r cwestiynau uchod, nododd y Pennaeth Adran Economi a Chymuned;

- Er mwyn sicrhau twristiaeth gynaliadwy bod angen cyfyngu niferoedd ymwelwyr mewn rhai ardaloedd a bod trafodaeth yn digwydd yn yr adolygiad.
- Bod gwaith monitro gwasanaeth o'r Cyngor yn digwydd i fesur perfformiad cwmni Byw'n lach gydag Aelod Cabinet yn cwrdd â'r cwmni i herio perfformiad. Ategodd bod data ganddynt, yn ymwneud a chyrhaeddiad staff a dynodiadau iaith swydd.
- Mewn perthynas â defnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd, nododd bod cyfarfodydd rhithiol wedi caniatáu i fwy o Gymraeg cael ei ddefnyddio gan fod meddalwedd fel Zoom yn caniatáu cyfieithu ar y pryd.
- Nad oedd sicrwydd hyd hyn ynghylch trefniadau gydag arian o'r cronfeydd newydd sy'n disodli cyllid Ewropeaidd. Rhagdybir mai Llywodraeth Prydain yng Nghymru fydd yn delio a'r ceisiadau.
- Bod diwylliant Cymreig naturiol ymysg staff Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan fod rhan fwyaf yn rhugl y Gymraeg. Fodd bynnag cydnabuwyd bod her gyda chyfathrebu a thrafod gyda'r Llywodraethau am ei fod yn digwydd drwy'r Saesneg.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch staff y llyfrgelloedd, nododd nad yw'r rôl o fod yn llysgennad i'r iaith yn benodol yn y swydd ddisgrifiad. Fodd bynnag, mae hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan naturiol o'r swydd.

Ategodd yr Ymgynghorydd Iaith y pwyntiau canlynol:

- Bod cymal ym mholisi iaith y Cyngor sy'n nodi ei fod yn ddisgwyliedig i staff y Cyngor gyfathrebu yn y Gymraeg. Ategodd bod y polisi dan sylw wrthi'n cael ei ddiwygio a bod cyfle yn y diwygiad i atgoffa staff am y cymal hwn wrth hyrwyddo'r polisi newydd.
- Mewn perthynas â chyfathrebu, mae newid wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda 'Teams' yn rhwystr oherwydd diffyg cyfleuster cyfieithu ar y pryd ac nid pawb sy'n fodlon defnyddio Zoom sydd â darpariaeth dda.

**PENDERFYNWYD Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 7. POLISI TROSSLWYDDO IAITH YN Y CARTREF LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Iaith gwybodaeth ynghylch polisi trosglwyddo iaith yn y cartref gan Lywodraeth Cymru. Ategodd y buodd ymgynghoriad ar ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf cyn y cyfnod clo cyntaf, ac o ganlyniad i hyn nad yw'r polisi wedi dod o flaen y pwyllgor fel dogfen ddrafft.

Eglurodd prif ddiben y polisi sef ffocysu ar drosglwyddo iaith o fewn y cartref yn unig a chynnig arweiniad er mwyn galluogi rhieni a gofalwyr i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant yn y cartref. Croesawodd yr Ymgynghorydd Iaith y ddogfen gan egluro ei fod yn manylu ar faes allweddol, sef annog rhieni sydd wedi dysgu Cymraeg eu hunain o fewn y system addysg i drosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd gyda'u plant hwy.

Eglurodd bod ambell i ddatblygiad ymhellach angen gan gynnwys;

- Datblygu gwell dealltwriaeth ar ymarferion iaith a rhesymau siaradwyr dros beidio trosglwyddo.
- Amseru'r cyhoeddiad sef cyn cyhoeddiad canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf sydd â data defnyddiol ynghylch yr iaith Gymraeg
- Diffyg ystyriaeth i effaith y pandemig Covid-19 ar arferion iaith tra bu'r ysgolion ar gau.
- Diffyg manylder gydag ambell i gam o fewn y polisi a sut i'w gwireddu.
- Ei bod yn anwybyddu teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol.
- Elfennau sut i ysbrydoli plant i ddefnyddio eu Cymraeg ac ail gynnau'r sgiliau drwy gefnogi'r teulu cyfan.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- Cytunodd aelodau bod diffyg manylder o fewn y polisi a bod angen enghreifftiau cyfredol o sut y bwriedir gweithredu'r camau.
- Ategodd aelod bod tystiolaeth yn ymddangos mewn ysgolion bod effaith negyddol sy'n deillio o ddefnydd gormodol o sgriniau dros y cyfnod clo wedi newid arferion iaith. Ategodd bod hyn yn cynnwys plant yn siarad Saesneg â'u brodyr a chwiorydd.
- Rhoddodd un aelod sylw bod pwyslais yr adroddiad ar ardaloedd lle mae plant yn ennill eu Cymraeg drwy'r system addysg ond yn peidio â throsglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd gyda'u plant hwy yn y dyfodol. Ategodd mai rheswm dros hyn yw gan mai Saesneg yw eu mamiaith.
- Mynegodd aelod nad oedd pwyslais ar broblemau sydd fan hyn mewn ardal lle mae Cymraeg yn iaith naturiol o fewn y cartref i'r mwyafrif
- Ategodd aelod at hyn gan nodi nad oes sicrwydd beth fydd effaith tymor hir y cyfnodau clo ar yr iaith gan fod arferion plant wedi newid.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	22.06.21
<b>TEITL</b>	Adroddiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant i'r Polisi Iaith.
- 1.2 Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio yn holl waith yr Adran a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth i'n trigolion gan gydnabod hefyd yr heriau sy'n wynebu'r maes.
- 1.3 Yn dilyn gwaith diweddar i adnabod dynodiadau iaith holl swyddi'r Adran, gellir adrodd fod 79% o staff yr Adran yn cyrraedd y gofynion iaith. Dylid nodi fod y sefyllfa yn gwahaniaethu wrth edrych ar wasanaethau penodol.
- 1.4 Er ar yr olwg gyntaf fod y canran i weld yn isel o gymharu â'r Cyngor yn ei gyfanrwydd (91%) dylid sylweddoli nad yw'r ffaith fod unigolion yn gallu cyrraedd y gofynion iaith y swydd yn golygu nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r cwsmer. Mae'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael yn eang ac enghreifftiau positif a pharhaus o unigolion yn yr Adran yn edrych i ddatblygu a gwella eu sgiliau iaith.
- 1.5 Yn 2016 lanswyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud "Cynnig Rhagweithiol" i bawb sy'n siarad Cymraeg. Mae gallu darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" yn golygu na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod gwneud cais am gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y dylai fod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael iddynt heb orfod gofyn amdano.
- 1.6 Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i Mwy na Geiriau o'r cychwyn cyntaf ers pan ei gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2012 ac wedi croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd ym mlwyddyn 2016. Mantais amlwg y fframwaith yw ei fod yn fframwaith cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb ar draws y wlad, ond hefyd ar draws sefydliadau maes. Mae swyddogion y Cyngor yn cyfrannu'n gyson i fforwm Rhanbarthol sydd wedi cael ei sefydlu gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd ar gyfer cydweithio a rhannu ymarfer da.

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn
<p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p> <p>Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd i'w weld yma: (<a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyn-gor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyn-gor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf</a>) Mae'n gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Iaith y teulu,</li> <li>2. Iaith dysgu,</li> <li>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,</li> <li>4. Iaith y gymuned</li> <li>5. Ymchwil a Thechnoleg</li> </ol>	<p><b>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</b></p> <p><b>Rhaglen Trawsffurfio Cymunedol</b> - Mae Timau Adnoddau Cymunedol (TAC) yn cael eu sefydlu ar draws Gwynedd. Bydd aelodau'r timau hyn yn cael eu cyflogi gan wahanol sefydliadau, a phob sefydliad â'i drefniadau a'i weithdrefnau ei hun o safbwynt yr iaith Gymraeg.</p> <p>Mae angen ystyried yr amrediad o faterion sy'n codi o ran cydweithio mewn awyrgylch ddwyieithog, a rhoi arweiniad cadarn i staff. Bydd sgôp y TAC yn ymestyn i gynnwys meddygon teulu, cyrff trydydd sector a darparwyr o wahanol sectorau. Fel mae pethau ar hyn o bryd mae angen yn y lle cyntaf gwyntyllu y materion sy'n codi o fod yn integreiddio gweithlu y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p><b>System WCCIS</b> - Mae ffrwd gwaith cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith yma ar gyfer sicrhau bod system WCCIS, y system cofnodi achosion gofal ac iechyd cymunedol genedlaethol, yn gwbl ddwyieithog. Mae oedi wedi bod yn ddiweddar o ran y rhaglen waith ond momentwm wedi codi eto'n ddiweddar gyda threfniadau llywodraethu newydd wedi eu sefydlu ar gyfer datblygu rhaglen, sy'n cynnwys mewnbwn y Bwrdd Gwybodaeth Genedlaethol. Mae'r bwrdd hwn yn gyfrifol am sicrhau bod sylw yn cael ei roi i faterion ynghlwm â'r iaith Gymraeg. Mae gwaith sgopio yn digwydd ar hyn o bryd, gyda'r gobaith o sicrhau bod y system ar gael yn ddwyieithog, unrhyw le yng Nghymru. Bydd hyn yn adeiladu ar waith lleol sydd wedi'i wneud i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn medru derbyn dogfennau Cymraeg a Saesneg allan o'r system yng Ngwynedd. Gwaith arall sy'n cychwyn yn genedlaethol yw'r gwaith o safoni termau ym maes iechyd a gofal. Mae swyddogion o'r Cyngor yn cefnogi'r prosiect hwn.</p> <p><b>Blaenoriaethau gwella'r Adran</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ail-Ddylunio ein Gwasanaethau Gofal</li> <li>• Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol</li> <li>• Y Gweithlu a Recriwtio yn y Maes Gofal</li> </ul>

	<p>Mae'r blaenoriaethau hyn yn gwbl allweddol ar gyfer gwella y gwasanaeth sy'n cael ei roi i drigolion Gwynedd i'r dyfodol. Wrth ystyried blaenoriaethau hybu'r Gymraeg a'r pum maes penodol gellir gweld y plethiad a'r chyfraniad amlwg sydd gan waith yr Adran i fywydau unigolion a'n cymunedau.</p>
<p><u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p> <p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p><b>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</b></p> <p>Yn dilyn asesu angen yr unigolyn mae'r Adran yn gyfrifol am ddarparu'r gefnogaeth i'r unigolyn yn uniongyrchol trwy ein darpariaeth gofal mewnol, neu trwy gomisiynu darparwyr annibynnol i gyflawni hynny. Wrth gomisiynu darparwyr annibynnol i ddarparu'r gofal rydym yn nodi'n glir ein disgwyliadau trwy ein dogfennaeth cytundeb, ac o hynny wedyn eu gallu i gyflawni yn erbyn y disgwyliad. Dylid amlygu'r mai'r rhwystr pennaf i ddarparwyr allu cyflawni'r disgwyliadau'n llawn yw'r her sydd ganddynt o sicrhau gweithlu cymwys ac addas, boed hynny trwy recriwtio staff newydd neu sicrhau eu bod yn gallu cadw a datblygu'r staff profiadol sydd ganddynt.</p> <p>Ar y cyfan dylid cadw mewn cof fod 'darparu gofal' yn rhywbeth lleol a chymunedol ei natur. Gyda nifer sylweddol iawn o unigolion yn tueddu i fod yn gweithio yn y cymunedau maent yn byw ynddynt. Gwelir yn aml fod proffil ieithyddol sefydliadau gofal yn cynrychioli proffil ieithyddol ein cymunedau yn ogystal.</p> <p>Er mwyn ceisio cefnogi ein darparwyr annibynnol i wella eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg mae'r canlynol ar waith.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu a chryfhau ein disgwyliadau sydd wedi ei nodi mewn cytundebau gyda darparwyr, gan ychwanegu'r angen i ddarparwyr gael Polisi Iaith mewn lle. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i adnabod a gweithio gyda darparwyr ar yr agweddau sydd angen eu cryfhau.</li> <li>• Ystyried y math o farchnad a darpariaethau sydd ei angen yng Ngwynedd i'r dyfodol e.e. y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i drawsnewid ein darpariaeth gofal cartref yn y Sir.</li> <li>• Gweithio gyda darparwyr a phartneriaid i ddod i ddeall y gwir gost o ddarparu gofal gan gyfrannu tuag at y trafodaethau cenedlaethol sydd eu hangen i wella cyflogau staff rheng flaen y maes gofal.</li> <li>• Gwella delwedd swyddi'r maes gofal gan gryfhau a hysbysebu'n well y llwybrau gyrfaol posib sy'n bodoli.</li> </ul>

<p><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></p> <p>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg?</p>	<p><b>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</b></p> <p>Mae recriwtio i rai rolau penodol yn gallu bod yn heriol i ni fel Adran yn ogystal. Enghraifft o hyn yw rôl Therapydd Galwedigaethol ble rydym wedi ffeindio hi'n anodd llenwi swyddi gwag dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phrinder amlwg wedi bod yn yr ymgeiswyr oedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r mater wedi ei amlygu a rydym yn falch o allu adrodd fod y Cabinet wedi cytuno yn ddiweddar i arian bid dros dro i fuddsoddi mewn swyddi hyfforddeion Therapyddion Galwedigaethol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Enghraifft wych arall o fagu talent a sgiliau yn fewnol yw'r defnydd sydd yn cael ei wneud trwy'r cynllun prentisiaethau.</p> <p>Mae rhwystrau a materion amlwg wedi cael eu hamlygu trwy'r Rhaglen Trawsffurfio Cymunedol. Mae'r rhwystrau sy'n bodoli yn deillio o'r ffaith fod gennym staff o ddau sefydliad yn integreiddio'r ffordd maent yn gweithio er lles ein trigolion, a sefydliadau dan sylw sef y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu polisiau iaith gwahanol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlwg mewn ystod eang o feysydd, boed wrth recriwtio staff i swyddi, cyfathrebu o fewn y timau neu gofnodi'r sgwrs sydd wedi bod gydag unigolion. Er mwyn ceisio deall hyd a lled y materion hyn roedd bwriad cyn y cyfnod clo yn ôl ym mis Mawrth 2020 i fapio sgiliau iaith holl aelodau'r Timau Adnoddau Cymunedol ar draws y Sir. Yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd eto ond mae sgysiaau diweddar wedi bod ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i gytuno i ail afael yn y gwaith yma. Rhagwelwn y bydd gwneud hyn yn amlygu'r agweddau hynny sydd angen sylw pellach a chytundeb rhwng y ddau sefydliad ar y ffordd ymlaen.</p>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><b>4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</b></p> <p>Yn sgil argyfwng Covid a'r angen i lenwi bylchau staffio sylweddol yn y maes rydym wedi cynnal ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus a gwahanol i'r arfer. Ers yr ymgyrchoedd rydym yn profi yn ddiweddar fod y nifer sy'n ymgeisio am swyddi wedi cynyddu. Byddwn angen ystyried be sydd wedi gweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan sicrhau ein bod yn recriwtio yn y ffyrdd mwyaf effeithiol i'r dyfodol. Mae'r cyfnod diweddar hefyd wedi dangos be sy'n bosib o ran unigolion yn penderfynu newid gyrfaoedd. Mae'r gallu dangos enghreifftiau positif o hyn hefyd heb os yn helpu wrth geisio recriwtio a chyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol.</p>

	<p>Mae cael perthynas adeiladol gyda'n darparwyr annibynnol yn allweddol wrth ddatblygu a gwella'r gwasanaeth sydd ar gael i drigolion i'r dyfodol, gan gymryd pob cyfle posib i bwysleisio pa mor bwysig ydyw i hybu'r Gymraeg yn ein cymunedau a sicrhau hawl pawb i gael y cynnig rhagweithiol. Yn ogystal angen cydweithrediad ein darparwyr ond hefyd partneriaid allweddol eraill megis y Bwrdd Iechyd Enghraifft o un agwedd y gellir cydweithio a'i ddatblygu ar y cyd yw'r gofyn i ddarparwyr ddatblygu polisi iaith ar gyfer eu sefydliad.</p> <p>Mae angen cydnabod y materion sydd yn bodoli fel rhan o'r Rhaglen Trawsffurfio Cymunedol gan fuddsoddi amser ac adnodd i ddod i ddeall y sefyllfa yn llawn. Credir fod cyfle fan hyn hefyd i wella ein dealltwriaeth o ymarferion da sydd yn bodoli yng Nghymru a thu hwnt, gan ystyried sut y gallent gryfhau'r ddarpariaeth sydd gennym yng Ngwynedd.</p>
--	---





# Eitem 8

Cyfarfod	Pwyllgor Iaith
Dyddiad	
Teitl	Adroddiad Adran Plant a Cefnogi Pobl ar weithrediad y Polisi Iaith a gweithgareddau hybu'r Gymraeg
Pwrpas	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith, a sut yr ydym yn mynd ati i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwaith.
Awdur	Marian Parry Hughes, Pennaeth Plant a Cefnogi Teulu

## Cyflwyniad.

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon i ddarparu gwybodaeth am gyfraniad Gwasanaethau'r Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd i Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd.

1.2 Yn 2016 lanswyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud "Cynnig Rhagweithiol" i bawb sy'n siarad Cymraeg. Mae gallu darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" yn golygu na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod gwneud cais am gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y dylai fod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael iddynt heb orfod gofyn amdano.

1.3 Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i 'Mwy na Geiriau' o ddyddiad ei gyhoeddi yn 2012, ac yna wedi croesawu egwyddorion y Fframwaith Strategol Olynol a gyhoeddwyd yn 2016. Mantais amlwg y fframwaith yw ei bod yn sicrhau cysondeb yn genedlaethol ac ar draws sefydliadau.

1.4 Gweler isod ymateb y gwasanaeth i gwestiynau'r aelodau:

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</b>	Hybu a hyrwyddo
<b>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</b>	
<b>1. Iaith y Teulu</b>	
<b>Iaith yn y sector gofal plant</b> - Mae'r Gwasanaeth blynyddoedd Cynnar wedi cydweithio gyda Hunaniaith i gynnal gweithdy ymwybyddiaeth iaith ar gyfer darparwyr gofal plant y sir. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydweithio gydag aelodau CWLWM (5 sefydliad arweiniol gofal plant yng Nghymru) i hybu a hyrwyddo y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar.	
Yn ystod 2020-21 ac yn parhau rydym yn hyrwyddo cynllun CAMAU <a href="https://dysqucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/">https://dysqucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/</a> i annog gweithlu y sector gofal plant i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg. Bydd CAMAU yn fyw o fis Mehefin ymlaen i ymarferwyr yn y sector. Rydym hefyd yn cydweithio gyda Cydlynnydd Iaith Gymraeg sydd newydd ei phenodi gan y sefydliad gofal plant PACEY er mwyn cyflwyno mwy o adnoddau, cymorth a chefnogaeth i ofalwyr plant (Childminders) megis	
- Fideos You Tube Byr	
- Pecyn Gwybodaeth Diwylliant Cymru	
- Pecyn Gweithgareddau Awyr Agored	
- Pecyn Gweithgareddau Cludiant (aelodau yn unig)	
- EY Smart- Llwyfan Hyfforddi ar-lein	
- Chwilfa Puw y Môr Ladron- Llyfr Dwyieithog	

-Syniadau Gweithgareddau Cymraeg

-Gweminar Cymorth Iaith Gymraeg Misol

- Gweminar "Hwyl gyda'r Gymraeg"

Rydym hefyd yn cydweithio gyda Cydlynnydd Prosiect Iaith Gymraeg NDNA (National Day Nurseries Association) Cymru sy'n cefnogi aelodau trwy ymweliadau lleoliad 1:1.

Cychwynnodd "Cynllun Croesi'r Bont" gan y Mudiad Meithrin nôl yn Medi 2019. Prif bwrpas yw Trochi'r Gymraeg o fewn cylchoedd Meithrin a chynyddu pontio ieithyddol gyda dosbarthiadau Meithrin Ysgolion Cymru. Eleni mae 11 cylch yn y sir yn derbyn cefnogaeth y cynllun.

Mae'r Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar hefyd yn cynnig grantiau o £100 i warchodwyr preifat i fynd tuag at brynu adnoddau Cymraeg.

**Cefnogaeth i Rieni** – Mae'r Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar wedi cydweithio gyda Mudiad Meithrin i gynnal sesiynau clwb cwtsh i rieni ar lein yn ystod Misoedd Ionawr-Mawrth. Bu i 35 unigolyn ymuno yn ystod y cyfnod.

Mae'r Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi creu 1,200 o becynnau "Gwirioni ar Stori" i'w rhannu i blant dan 3 yn y sir.

Mae'r Tim Cefnogi Teulu, Tim Trothwy a Gwasanaeth Ieuenctid i gyd wedi eu hyfforddi i ddarparu cyrsiau rhianta 'Friends' yn lleol ar gyfer grwpiau gwahanol o blant, pobl ifanc a rhieni. Rydym yn falch fod ein ymwneud ni gyda'r rhaglen hon ar y cyd gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi arwain at gyfieithu'r adnoddau i gyfrwng y Gymraeg, a byddent ar gael eleni.

**Cefnogaeth i blant /pobl ifanc bregus** – Mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol yn ystyried anghenion iaith bob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth gennym. Mae iaith yn ffactor wrth benderfynu ar faterion megis cynnwys y pecyn gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen ar y teulu / plentyn; lleoliad gofal, maethu a/neu fabwysiadu unrhyw blentyn. Wrth gwrs mae rhai o'r plant sy'n dod i'n gofal yn gwneud hynny oherwydd y risgiau diogelu difrifol y maent yn eu wynebu a/neu oherwydd cymhlethdod a dwyster eu anghenion gofal. Bryd hynny gall lleoliadau all-sirol fod yr unig opsiwn i'r plentyn, ond pan fo hynny'n digwydd bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn parhau i gyfarch anghenion ieithyddol y plentyn drwy ymweliadau cyfrwng Cymraeg a drwy sicrhau adnoddau ( llyfrau etc) iddynt yn eu lleoliad. Yn ogystal mae'r Adran Addysg yn cydweithio gyda'r Adran i sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd yn cael eu lleoli mewn unedau ymhell o'u cynefin yn derbyn cysondeb hybu iaith drwy ddarparu elfennau addysgol drwy raglen 'Tute'. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ddarganfod tiwtoriaid sydd yn siarad Cymraeg ar gyfer pob plentyn yn y sefyllfa yma, ond yn amlach na pheidio mae hyn yn heriol iawn.

## 2. Iaith dysgu.

**Addysg Feithrin** – Mae'r Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth addysg feithrin (10 awr yr wythnos i blant 3 oed). Mae'r holl ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trochi plant bach yn yr iaith o'u cyflwyniad cyntaf i addysg. Mae i Wynedd 60 o ddarparwyr Addysg Feithrin ar hyn o bryd.

**Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion** - Mae'r Rhwydwaith o Weithwyr Cymorth Ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cyfleon dysgu anffurfiol ac achrediaidau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gweithwyr yn darparu cyfleon dysgu ac ennill achrediaidau drwy'r ysgolion uwchradd ac arbennig, ac yn pontio i weithgareddau cymdeithasol yn y gymuned.

**Gwobr Dug Caeredin yng Ngwynedd** - Un o brif raglenni achrediadau'r Gwasanaeth Ieuencid yw Gwobr Dug Caeredin. Y Gwasanaeth Ieuencid sy'n darparu a gweinyddu y drwydded ar gyfer ysgolion uwchradd Gwynedd. Rydym wedi sicrhau fod holl elfennau'r wobr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yma yng Ngwynedd, drwy ddarparu'n uniongyrchol ein hunain a chomisiynu'r Urdd i arwain ar rhai elfennau. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Wobr yn genedlaethol i gyflwyno systemau Cymraeg fel y gall person ifanc a gweinyddwyr y wobr wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Eleni mae 'App' Cymraeg Gwobr Dug Caeredin wedi ei gyflwyno ac ar gael – gwych!

### **3. Iaith gwaith a gwasanaeth.**

**Gweithlu Cymraeg** – mae 91% o weithlu'r Adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Rydym hefyd yn parhau i annog dysgu'r iaith i'r gweithlu hynny sydd am fentro, a braf gweld yw siwrne a datblygiad Stephen Wood, Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid i ddysgu'r iaith gyda chefnogaeth tiwtor un i un; a braf hefyd gweld swyddog newydd i'r cyngor yn cymryd mantais o'r cwrs hunan astudio yn fuan wedi ei phenodiad fel gweithiwr Cymdeithasol, sef Zoe Pope. Mae Tim Rheoli'r gwasanaeth ym ymrwymo i gefnogi staff sydd angen dysgu neu loywi iaith i fynychu yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i wneud hynny.

**Gwasanaethau Cymraeg** – yr ydym yn falch o fedru adrodd fo ein holl wasanaethau yn gallu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **4. Iaith y gymuned**

**Gwasanaeth Ieuencid** - Mae'r gwasanaeth yn cydweithio'n agos iawn gyda Hunaniaeth ar weithgareddau a chyfleon i bobl ifanc gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg megis,

- Cwisiau – Cwis Mawr Cymru
- Nosweithiau bandiau / miwsig Cymraeg
- Noson hyrwyddo Llwyddiannau gyda'r grwp 'Bwncath' yn darparu'r adloniant

Mae'r Gwasanaeth Ieuencid hefyd yn cydweithio gyda Menter Iaith Bangor ar ddarparu cyfleon cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i bobl Ifanc. Mae'r prosiect 'Bangoriaid' yn uno pobl ifanc rhwng 'Bangoriaid y Byd'. Mae pobl ifanc Bangor, Gogledd Iwerddon a'n Bangor ni eisoes yn trafod dwyieithrwydd, diwylliant a hunaniaeth.

Mae holl ddarpariaeth gymdeithasol y Gwasanaeth Ieuencid ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r gweithgareddau yn amrywio o gynlluniau garddio, cybiau dringo, gweithdai graffiti a chelf, sesiynau coginio mewn cymunedau drwy'r sir.

**Gweithgareddau a Chwarae** – Mae'r Adran yn arwain ar sefydlu Fframwaith Weithgareddau a Chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor. Bydd y Fframwaith yn sicrhau darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Fframwaith yn cael ei defnyddio ar gyfer comisiynu gweithgareddau hwyliog, creadigol, chwaraeon a chwarae i blant a pobl ifanc drwy dynnu ynghyd adnoddau y grant chwarae, Grant Hwyl yr Haf a Grant Plant a Chymunedau a Dechrau'n Deg.

Drwy gyfnod gwyliau ysgol 2020-21 bu i'r Adran gomisiynu gweithgareddau hwyliog a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r sir. Bu i bartneriaid fel Cwmni'r Fran Wen, Elfennau Gwylt, Urdd, Byw yn Iach, Syrcas Syrcas a Dawns i Bawb ddarparu ystod amrywiol o weithgareddau drwy'r sir ar gyfer plant dan 5 a'u teuluoedd, plant oed cynradd, a pobl ifanc 11-13 oed.

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</b>	Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti
<b>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</b>	
<p>Mae'r adran yn cynnwys gofynion iaith ar bob / mwyafrif o'n cytundebau 3ydd parti a caiff pob cytundeb ei fonitro yn rheolaidd rhwng Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr ar ran y darparwr. Mae rhai cytundebau sy'n ymwneud yn benodo gyda lleoliadau all sirol i gyfarch anghenion gofal dwys yn cael ei yrru gan y ddarpariaeth gyfyng iawn sydd ar gael ar draws Prydain. Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at y materion addysg drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn deillio o'r angen i leoli plentyn neu berson ifanc mewn lleoliad all sirol sydd yn cyfarfod eu anghenion gofal. Ar yr adegau yma ameg angen gwneud penderfyniad ar leoliad addas yn seiliedig ar anghenion gofal a diogelu fel y prif flaenoriaeth.</p> <p>Mae ein cytundebau allanol yn amrywiol iawn ee darparu lleoliad gofal arbenigol i blentyn, i gynig cefnogaeth i ofalwyr ifanc, i ddarparu gwasanaethau rhianta ac ymyrraeth gynnar ar ein rhan. Rydym hefyd yn cydweithio gyda darparwyr lleol i adeiladu arbenigeddau mewn gwaith cefnogi plant a theuluoedd er mwyn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ee cwrsela, a chyflafareddu teuluol yn lleol.</p>	
<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</b>	Gweithredu'n ddwyieithog
<b>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</b>	
<p><b>Recriwtio</b> - Mae problemau recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn fater sy'n peri pryder i'r adran. Mae perygl y bydd rheidrydd ar yr adran i recriwtio gweithwyr cymdeithasol di-Gymraeg a/neu ddefnyddio gweithwyr cymdeithasol di-Gymraeg drwy asiantaeth er mwyn sicrhau darparu gwasanaeth, ond gall hynny fod yn angenrheidiol o ran ein dyletswyddau statudol gofal a diogelu, ond yn groes i'n safonau iaith. Mae'r problemau staffio sydd yn dechrau arddangos eu hunain eisoes wedi eu huchafu yn briodol o fewn strwythur y Cyngor.</p> <p><b>Cyfarfodydd</b> - Mae cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda partneriaid yn gallu bod yn heriol ar adegau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae darpariaeth cyfieithu ar Zoom yn hawdd ac yn ddi-drafferth iawn i'r rhai sydd ei angen, ond mae rhwystrau mewn lle gan nad yw'r heddlu yn fodlon defnyddio Zoom fel platfform i gyfarfod ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi medru ei ddefnyddio hyd at yn ddiweddar iawn. Er hynny rydym o gychwyn y cyfnod diweddar o weithio dan gyfyngiadau COVID-19 wedi mynnu cynnal ein holl gyfarfodydd aml asiantaethol yn ddwyieithog, gyda chefnogaeth ardderchog gan Uned Gyfieithu'r Cyngor. Yr ydym yn ymwybodol fod Heddlu Gogledd Cymru erbyn hyn yn cychwyn ar brofi gyda Zoom, ac mae hyn yn newyddion i'w groesawu ac yn uchafu cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p><b>Darpariaeth / Lleoliadau tu hwnt i Wynedd a Chymru</b> – Rydym eisoes wedi cyfeirio at y cyfyngiadau sydd arnom wrth sicrhau lleoliad gofal dwys i blentyn o Wynedd y tu allan i'r sir. Yn yr un modd rydym hefyd yn bryderus am anghenion ieithyddol troseddwyr ifanc sydd yn derbyn dedfryd o garchar. Rydym yn cwblhau Asesiadau Anghenion Person Ifanc ar ddedfrydiad gan amlygu anghenion ieithyddol y person ifanc. Caiff yr asesiad ei gyflwyno i leoliad y ddedfryd. Nid oes gennym fel Gwasanaeth Cyfiawnder / Adran unrhyw reolaeth dros ddynodi lleoliad y ddedfryd, a gall person ifanc fynd i unrhyw leoliad drwy'r DU sy'n gwanhau cysylltiad person ifanc</p>	

gyda'i deulu, iaith, diwylliant. Yr ydym wedi cynnwys y mater yma ar ein Cofrestr Risg Adrannol gan ein bod yn credu fod pobl ifanc o Wynedd yn cael eu rhoi dan anfantais o ran eu dewis a'u defnydd o'u hiaith gyntaf mewn carchar.

**Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :**

Datblygu cyfleoedd newydd

**4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?**

**4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?**

Mae'r Adran yn parhau i hyrwyddo a chefnogi y defnydd o'r Gymraeg ymhob un o'r gwasanaethau. Mae darparu gwasanaethau i gymunedau Gwynedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth.

Byddwn yn parhau i sicrhau fod ein holl ymwneud â'n partneriaid yn gwbl ddwyieithog ac yn hyrwyddo pwysigrwydd y defnydd o'r iaith a'r dewis iaith i drigolion y Sir, a thrwy hynny ddylanwadu ar ymarfer mewn sefydliadau tu allan i'r Cyngor.

Byddwn yn parhau i annog unrhyw aelod o staff y gwasanaeth i fynychu cyrsiau i ddysgu'r iaith neu i loywi iaith er budd trigolion Gwynedd ac rydym eisoes yn arddel yr arfer o sicrhau fod y staff sydd yn ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, unai i gyflwyno eu hunain neu i gyflwyno eitem yn y Gymraeg er mwyn adeiladu hyder mewn amgylchedd ddiogel. Yr ydym yn gwybod fod hyn yn talu ar ei ganfed a bod iaith yn datblygu drwy hyder a chefnogaeth cydweithwyr.

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>22 Mehefin 2021</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Polisi Cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Williams</b> Ymgynghorydd Iaith
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cyflwyno papurau'r Ymgynghoriad er gwybodaeth ac er mwyn gwahodd sylwadau gan yr aelodau fydd yn cyfrannu at ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. Dogfennau'r ymgynghoriad i weld drwy'r linc isod: <a href="https://llyw.cymru/polisi-cenedlaethol-seilwaith-ieithyddol-y-gymraeg">https://llyw.cymru/polisi-cenedlaethol-seilwaith-ieithyddol-y-gymraeg</a>

## 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddogfen bolisi sydd yn manylu ar sut y maent yn bwriadu gweithred i gyflawni'r amcanion a osodwyd dan Thema 3 yn ei strategaeth iaith Cymraeg 2050.

1.2 Mae Thema 3 y strategaeth iaith – *Creu Amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun* - yn delio gydag amrywiaeth o faterion sydd yn cyfrannu at osod y sylfeini cywir ar gyfer ffyniant ieithyddol. Mae ei nodau yn cynnwys:

- **Cymuned a'r economi:** cefnogi seilwaith economaidd cymdeithasol cymunedau Cymraeg.
- **Diwylliant a'r cyfryngau:** sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.
- **Cymru a'r byd ehangach:** sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.
- **Technoleg ddigidol:** sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol
- **Seilwaith ieithyddol:** sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r strategaeth hon.
- **Cynllunio ieithyddol:** sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

- **Gwerthuso ac ymchwil:** parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

1.3 Mae'r ddogfen bolisi hon yn edrych yn benodol ar yr hyn sydd yn cael ei ddiffinio fel *seilwaith ieithyddol* yn y Nodau uchod, sef Geiriaduron, Terminoleg, Corpora a Safoni. Mae'n gosod allan yr heriau cyfredol yn y maes hwn ac yn cynnig nifer o amcanion a chymau gweithredu.

1.4 Mae'n cynnig camau o dan chwe maes, sef:

**1. Geiriaduron**

**2. Terminoleg**

**3. Corpora**

**4. Safoni (e.e. orgraff/sillafu, enwau lleoedd, termau)**

**5. Creu un rhyngwyneb – sicrhau chwilio hawdd ar draws pob adnodd**

**6. Creu uned newydd i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg**

1.5 Nod y Llywodraeth yw “**gwneud i'r holl elfennau rydyn ni wedi eu grwpio o dan y teitl 'seilwaith ieithyddol' weithio'n llyfn gyda'i gilydd, er mwyn ei gwneud yn haws i fwy o bobl nag erioed ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.**”

## **2. Cwestiynau y gofynnwn i chi eu hystyried**

Mae'r rhestr lawn o gwestiynau y mae'r Llywodraeth yn gofyn i ni eu hateb fel rhan o'r ymgynghoriad i'w gweld ar y wefan drwy ddilyn y linc ar ben yr adroddiad hwn. Ond yn fras, gofynnir i ni ystyried y canlynol:

1. Ydym ni'n cytuno yn gyffredinol gyda'r camau sydd yn cael eu cynnig gan y Llywodraeth?
2. Oes yna unrhyw beth ar goll neu unrhyw beth arall y gallen nhw fod yn ei gynnwys yn y polisi?
3. A ddylen nhw ddilyn trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r meysydd?
4. Beth yw ein barn am yr effeithiau posib y byddai'r cynigion yn y polisi drafft yma ar gyfer seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol felly ar:
  - i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
  - ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
5. Beth fyddai'r effeithiau hynny, a pha awgrymiadau fydden ni'n eu rhoi i'r Llywodraeth ar gyfer cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

### **3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?**

Gofynnir i'r aelodau ddarllen dogfennau'r ymgynghoriad a chynnig unrhyw farn a sylwadau fyddai yn helpu'r ymgynghorwyr iaith lunio ymateb ar ran y Cyngor i'r ymgynghoriad.



<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>22 Mehefin 2021</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Mair Williams Ymgynghorydd Iaith</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'w gymeradwyo gan yr Aelodau</b>

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn unol a gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy."

1.2 Mae'r Safonau penodol sydd yn ymwneud efo adrodd blynyddol (158, 164 ac 170) yn gofyn yn benodol i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
  - i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
  - ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
  - iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
  - iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth yma, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth o'r camau penodol a gymerir i weithredu'r Safonau.

1.4 Mae'r adroddiad a atodir felly yn Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at Mawrth 2021, ac mae'n cynnwys y wybodaeth benodol y gofynnir amdano yn Safonau 158, 164 ac 170 yn ogystal ag ychydig o wybodaeth ychwanegol.

1.5 Gan ei bod wedi bod yn flwyddyn anarferol o ran darparu gwasanaethau ac arferion gweithio y staff hefyd, cyflwynir trosolwg hefyd o'r flwyddyn a aeth heibio, a'r heriau penodol a wynebwyd o ran darparu gwasanaethau Cymraeg o ganlyniad i'r pandemig Covid 19.

## **2 CRYNODEB O'R ADRODDIAD**

Byddwn yn cynnwys crynodeb byr ar flaen yr adroddiad terfynol fydd yn rhoi darlun o uchafbwyntiau'r adroddiad:

- 400 o bwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol wedi eu cefnogi gan y tîm cyfieithu er mwyn galluogi cyfieithu ar y pryd
- 2 wasanaeth newydd wedi eu creu (Tîm Cymorth Covid a'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu) oedd yn darparu gwasanaethau yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 90% o staff y gwasanaeth Orlhain newydd yn gallu'r Gymraeg.
- 99.7% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar rhyw fath o sgiliau yn y Gymraeg.
- 92% o staff yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd (yn ôl asesiadau sydd wedi eu cwblhau)
- Mwy o swyddi y Cyngor efo gofyniad iaith Uwch nag unrhyw lefel arall.
- 441 o swyddi wedi eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.

## **3 ARGYMHELLION**

2.1 Gofynnir i'r aelodau:

- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol.
- cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ac am unrhyw beth arall y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD

### AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG – ar gyfer y flwyddyn 2020-21

Cynnwys:

**RHAGAIR – [i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol]**

- 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau**
- 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau**
- 3. Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2020-21**
  - 3.1 Cyfieithu ar y Pryd
  - 3.2 Gwasanaethau Newydd
  - 3.3 Newid ffordd o gyflwyno gwasanaethau – arfer da
  - 3.4 Heriau wrth symud ymlaen
- 4. Gwaith penodol i wella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ac i sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg gorau**
- 5. ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170**
  - 5.1 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg
  - 5.2 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
  - 5.3 Safon 154: Adrodd ar gategoreiddio swyddi
  - 5.4 Adrodd ar gwynion iaith

**Atodiad 1: Adroddiad Hyfforddiant Iaith 2020-21**

## 1. Cefndir - dyletswydd y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio a nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd a chopi o Bolisi Iaith gyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi y wefan gorfforaethol:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cydraddoldeb-ac-iaith/Safonau-Gymraeg-a-Pholisi-Iaith.aspx>

## 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi iaith.

Cafodd y Polisi iaith cyfredol ei fabwysiadu yn 2016 ac mae'n dilyn yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, y dylid parchu dewis iaith unigolion, ac y dylid manteisio ar bob cyfle i hybu'r Gymraeg y tu hwnt i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a bod yn rhagweithiol wrth roi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

Mae'r Polisi iaith wrthi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a hynny er mwyn ceisio cryfhau'r disgwyliadau mewn rhai meysydd a chynnig mwy o fanylion ac eglurder mewn meysydd eraill. Mae cymalau newydd yn cael eu llunio ar gyfer meysydd megis defnydd o dechnoleg, sydd wedi dod yn fwy perthnasol i'n gwaith dydd i ddydd dros y 5 mlynedd diwethaf ers sefydlu'r Polisi ac ers gosod y Safonau iaith.

Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith bellach yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiodyn. Yr her nesaf yw sut i ddefnyddio'r cynnig rhagweithiol mewn ffordd sydd yn annog mwy o drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'n gwasanaethau, ac yn magu hyder ymysg siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn eu gallu i ddarllen, deall a defnyddio'r Gymraeg.

### 3. Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2020-21

Credwn fod y modd y mae'r Cyngor wedi ymateb i heriau newydd y flwyddyn a aeth heibio, ac wedi gallu sicrhau'r gwasanaeth dwyieithog drwyddi draw, yn arwydd pendant o lwyddiant y polisi iaith, ac o'r modd y mae gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei wreiddio yn ein gwaith.

Gallai'r sefyllfa anghyffredin y gwnaethon ganfod ein hunain ynnddi, a'r ffaith fod dulliau gweithio dydd i ddydd cynifer o'n staff wedi newid dros nos, fod wedi cyflwyno sawl her o safbwynt sicrhau cydymffurfiaeth efo'r Safonau a Pholisi iaith y Cyngor. Mewn gwirionedd, rydym wedi gallu wynebu nifer o'r heriau - yn benodol felly o ran defnyddio technoleg a gweithio o bell, a nifer o wasanaethau a thimau newydd yn cael eu sefydlu i ymateb i anghenion newydd o fewn y cymunedau - ac wedi datrys rhwystrau mewn modd effeithiol a sydyn, gan lwyddo i sicrhau bod y gwasanaethau i gyd yn parhau i gael eu cynnig yn gwbl ddwyieithog i'r cyhoedd.

Cynigiwn yma adlewyrchiad ar rai o'r heriau a'r llwyddiannau dros y flwyddyn:

#### 3.1 Cyfieithu ar y Pryd

Bu Cyngor Gwynedd yn arwain y gad wrth sicrhau fod y ddarpariaeth pwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol hefyd yn cynnwys gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Un o'r heriau mwyaf ar gychwyn y flwyddyn oedd y symud i weithio o bell, ac addasu i ddefnyddio dull newydd o gynnal cyfarfodydd torfol. Nid oeddem fel Cyngor wedi defnyddio rhaglen Teams o'r blaen, ac felly roedd rhaid dysgu yn sydyn beth oedd yn bosib a beth nad oedd yn bosib.

Un o'r rhwystrau oedd canfod ffordd o alluogi cyfieithu ar y pryd ar-lein, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i allu cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg

Llwyddwyd i sicrhau fod Cyngor Gwynedd yn cynnal rhai o'i bwyllgorau ffurfiol yn rhithiol mor fuan â mis Ebrill 2020, a hynny yn defnyddio Teams. Serch hynny, nid oedd y ddarpariaeth Teams yn ddigonol ar gyfer ein holl ofynion - ac yn enwedig felly gyfarfodydd cyhoeddus - a phenderfynwyd trosglwyddo i ddefnyddio meddalwedd Zoom, sy'n llawer haws i'r defnyddiwr ac i'r cyfieithydd. Er bod rhai pryderon am ddiogelwch y feddalwedd Zoom yn wreiddiol, sicrhodd y gwasanaeth TG mai dyma oedd y ffordd orau o sicrhau ein bod yn gallu parhau i gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg ac i sicrhau hawl ieithyddol cyfranwyr.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, roedd tîm Cyfieithu'r Cyngor wedi cyfieithu mewn bron i 400 o bwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol. Rydym hefyd wedi llwyddo i we-ddarlledu Pwyllgorau rhithiol yn fyw ar ein gwefan, a hynny'n ddwyieithog.

Rydym yn dal, serch hynny, i weld bod rhai sefydliadau cyhoeddus eraill yn parhau'n gyndyn o ddefnyddio meddalwedd Zoom, ac mae hynny'n gallu tanseilio'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhai cyfarfodydd ac amharu ar ein gallu ni fel Cyngor i gynnig y gwasanaeth gorau.

Mae cryn waith wedi'i wneud gan swyddogion o'r Cyngor (swyddogion TG, Cyfieithu ac Iaith) i gynorthwyo'n partneriaid, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar y datblygiadau yn eu

sefydliadau hwy, a hynny er mwyn annog eraill i sicrhau fod pwyllgorau a chyfarfodydd ar gael yn newis iaith y defnyddiwr. Mae swyddogion o'r Cyngor hefyd yn parhau i fod ynghlwm â gwaith cenedlaethol i geisio perswadio Microsoft i gynnig darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn Teams. Gobeithiwn weld newid i'r sefyllfa yma yn fuan yn 2021-22.

### 3.2 Gwasanaethau Newydd

Cafodd nifer o wasanaethau newydd eu ffurfio yn ystod y flwyddyn, er mwyn ymateb yn uniongyrchol i'r heriau yr oeddem yn ei hwynebu yn sgil y pandemig. Crëwyd y gwasanaethau hyn drwy gyfuniad o symud aelodau staff cyfredol y Cyngor oddi wrth eu swyddi arferol, a chyflogi yn allanol mewn cyfnod byr. Roedd felly yn sicrhau gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnig cyfleoedd gweithio cyfrwng Cymraeg, mewn cyfnod heriol ac anodd.

#### Gwasanaeth Gofal - cyffredinol:

Cafodd nifer o aelodau staff eu hail-gyfeirio i helpu'r ymateb i'r pandemig, ac o'r Tîm Trawsffurfio Gofal yn benodol. Aeth 2 aelod o'r tîm i weithio gyda threfniadau PPE, 1 aelod o staff i arwain y Tîm Cymorth Covid a 2 aelod staff i arwain yr ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr, 1 aelod staff yn gweithio yn yr Hwb ysbyty, 1 aelod staff yn arwain ar gyfathrebu'r ymdrech Cymorth covid, ac 1 Aelod staff yn arwain Uned Cymorth Covid lleol.

Lansiwyd ymgyrch benodol ar ddechrau'r cyfnod clo i geisio denu aelodau'r cyhoedd i wirfoddoli a/neu i weithio i helpu'r maes gofal, a chafwyd ymateb arbennig o dda. Cafwyd dros 200 o bobl yn dangos diddordeb yn y cyfleoedd gwaith, a chan fod y tîm oedd yn gyfrifol am dderbyn yr ymholiadau yn casglu gwybodaeth am brofiadau a chymwysterau perthnasol, gellir adrodd bod 75% ohonynt yn gallu'r Gymraeg, boed hynny yn rhugl neu yn ddysgwyr. Dim ond 61 oedd wedi datgan nad oeddynt yn deall na siarad cymraeg.

Cafodd 23 penodiad ei wneud yn uniongyrchol drwy'r ymgyrch marchnata hyn at Mawrth 3ydd 2021. Cafodd nifer o benodiadau pellach eu gwneud y tu allan i'r ymgyrch hefyd.

#### Tîm Cymorth Covid:

Cafodd y Tîm Cymorth Covid ei sefydlu er mwyn bod yn bwynt cyswllt canolog ac i gefnogi trigolion Gwynedd i gael yr help oedd ei angen arnynt i ymdopi efo heriau'r argyfwng. Ymysg prif gyfrifoldebau'r Tîm roedd:

- Cymryd galwadau ffôn a negeseuon e-bost gan y cyhoedd oedd yn ymwneud â materion Covid-19, a rhoi gwybodaeth iddynt;
- Dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth fwyaf priodol i'r trigolion oedd yn cysylltu;

- Cysylltu gyda phawb oedd yn cysgodi a chynnig cymorth, ynghyd â chodi eu hymwybyddiaeth o gymorth y parseli bwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhwng mis Ebrill ac Awst 2020, bu 5,080 o drigolion mewn cyswllt â'r Tîm, gyda 4,781 o'r rheini yn bobl oedd yn cysgodi.
- Uchafu unrhyw bryderon i'r timau perthnasol o fewn y Cyngor;
- Canfod beth oedd yn bwysig i'r trigolion oedd yn cysylltu, a dod o hyd i ddatrysiad;
- Cysylltu gyda mudiadau a chyrff allanol ar ran y trigolion, a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y mudiad/corff a'r trigolyn pan fo hynny'n briodol.
- 

Cafod y gwasanaeth hwn ei gynnig yn gyfan gwbl ddwyieithog, wrth reswm, gyda gwybodaeth gyfredol yn cael ei ddarparu i drigolion drwy wefan benodol "Help i drigolion a Chymunedau" a 27 aelod o staff y Cyngor yn cael eu dargyfeirio o wahanol wasanaethau i'r Tîm Cymorth Covid dros gyfnod o 8 mis (Mawrth – Hydref 2020)

Darparwyd canllaw i staff i gofnodi sgysiau yn union fel yr oeddent yn cael eu hadrodd ( gan gynnwys yr iaith), ac mae'r cofnodion yn dangos mai dewis siarad Cymraeg yr oedd y mwyafrif o'r trigolion y daethpwyd i gyswllt â nhw.

Yn ôl adborth y gwasanaeth roedd teimlad bod y cynnig Cymraeg wedi gwneud gwahaniaeth mawr wrth adeiladu perthynas gyda'r trigolion ac wedi eu galluogi i gynnig gwasanaeth oedd yn gwneud i bobl deimlo yn gyfforddus ac yn werthfawrogol o'r sgwrs a'r gefnogaeth.

### Y Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu:

Sefydlwyd y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu (TTP) ym mis Mai 2020, a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020. Mae'r gwasanaeth bellach yn cyflogi 102 o weithwyr – 7 wedi cael eu secondio o wasanaethau eraill y Cyngor a 5 aelod o staff arall yn gweithio fel staff 'banc'. Cafodd 90 aelod staff eu cyflogi o'r newydd.

Prif amcan y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu yng Ngwynedd yw:

- Adnabod y bobl sydd wedi eu heintio neu wedi bod mewn cyswllt ag achos positif o Covid-19 a'u cefnogi i ynysu yn ystod y cyfnod heintus, neu hyd nes i'r symptomau neu gyfnod magu'r haint fynd heibio; a
- Cefnogi pobl sydd â symptomau i gael mynediad at brawf Covid-19

Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cysylltu gyda miloedd o bobl ar draws y sir, yn uniongyrchol a thrwy weithredu cyd-gymorth gydag awdurdodau lleol eraill ar draws y Gogledd, i gynnig cefnogaeth a chynghor amhrisiadwy. Yn y chwe mis rhwng Mehefin a Rhagfyr 2020, er enghraifft, mae'r gwasanaeth yng Ngwynedd wedi delio gyda dros 8,000 o achosion Covid.

Un o'r rhwystrau a wynebwyd gyda'r gwasanaeth yma oedd wrth recriwtio. Gan fod y gwasanaeth yn cael ei gydlynu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, nid oedd gan y Cyngor reolaeth lawn dros y broses recriwtio. Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain (letya) gan awdurdod arall, a'r awdurdod



hwnnw yn gyfrifol am yr ymgyrch recriwtio. O ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth i anghenion penodol y gogledd orllewin o ran cael gweithwyr cyfrwng Cymraeg, fe adawyd y gwasanaeth yng Ngwynedd gyda phrinder ymgeiswyr oedd yn gallu'r Gymraeg oedd yn gallu cael eu penodi i'r swyddi gwag. Mae'r sefyllfa yma wedi gadael y gwasanaeth yn fregus o ran cael niferoedd digonol o staff i ymateb i ymchwyddiadau (mewn unrhyw iaith) ac, yn arbennig, i ymateb i anghenion trigolion Gwynedd yn eu hiaith eu hunain.

Serch hynny, mae 90% o'r staff a gafodd eu penodi naill ai'n Gymraeg iaith gyntaf neu ail iaith neu yn ddysgwyr Cymraeg. Mae dysgwyr yn cael eu paru yn rheolaidd gyda siaradwyr rhugl Cymraeg er chwarae rôl, ac er mwyn gwella eu sgiliau. Mae gennym hefyd grŵp siaradwyr Cymraeg lle mae cyfle i'r rhai sy'n dysgu'r iaith siarad mewn amgylchedd diogel gyda'r rhai sydd yn rhugl.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am ei hyfforddiant ei hun, ac wedi cynnal yr hyfforddiant hwnnw yn ddwyieithog. Mae gan y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghyngor Gwynedd dîm hyfforddi pwrpasol sy'n dylunio a darparu pob agwedd ar hyfforddiant sy'n ofynnol, gan gynnwys hyfforddiant sefydlu a rôl gychwynol hyd at weithredu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol newydd/diwygiedig, yr olaf ohonynt yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r dull hyfforddi yr un mor hyblyg ac ymatebol â'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu; gydag ymyriadau hyfforddi byr yn wythnosol (ar gyfer pob rôl swydd), hyd at holl aelodau'r tîm yn gallu hunan-feirniadu eu perfformiad eu hunain a gofyn am hyfforddiant pan fyddant yn teimlo bod angen hyn arnynt.

Dyma ddyfyniad gan y gwasanaeth am y gwaith sydd wedi ei wneud i annog staff a gwella eu hyder yn eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod:

“Pan gawn ni rywun sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf ond sydd â rhywfaint o Gymraeg, rydym ni'n eu cyfeillio gyda siaradwr rhugl ac yn chwarae rôl ar gyfer gwiriadau dyddiol yn y Gymraeg gyda nhw, sy'n gweithio'n dda iawn. Mae hyn yn magu eu hyder gryn dipyn ac maen nhw'n sylweddoli eu bod nhw'n gwybod mwy nag yr oedden nhw'n ei feddwl. Yna maen nhw'n dechrau cyfrannu yn ystod amser paned yn y Gymraeg ac mae eu hyder yn tyfu i allu cynnal sgwrs lawn gyda chwsmer yn y Gymraeg. Mae gennym garfan fach o staff sy'n mentora'r bobl hyn, mae'n gweithio'n dda iawn.”

### 3.3 Newid ffordd o gyflwyno gwasanaethau – arfer da

Bu rhaid i nifer o wasanaethau newid eu dulliau gweithio o ganlyniad i'r cyfyngiadau ac mae sawl enghraifft dda ar draws y Cyngor o weithwyr yn addasu ac yn parhau i gynnig gwasanaeth a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i'r cyhoedd. Un enghraifft o hyn oedd y gwasanaeth y **Cynllun Dementia Go**, sef cynllun sy'n helpu cefnogi pobl sy'n byw efo Dementia, eu teuluoedd a'u gofalgwyr drwy gynnig gweithgareddau ymarfer corff mewn amgylchedd diogel.

Oherwydd yr argyfwng bu'n rhaid atal y gweithgareddau a'r dosbarthiadau cymunedol arferol, ond roedd y tîm yn awyddus i barhau i gadw mewn cysylltiad â chefnogi aelodau'r grŵp.

Mae'r tîm wedi bod yn brysur yn dyfeisio ffyrdd newydd o gadw mewn cyswllt, o sgysiau ffon a fideo rheolaidd i rannu newyddlen, cynnal cystadlaethau a heriau, trefnu webinars, gwneud fideos ffitrwydd a chodi arian.

“Mae diffyg cyswllt cymdeithasol yn medru cael effaith fawr ar bobl, yn gorfforol ac yn feddyliol,” meddai Emma Quaeck, Rheolwr y cynllun. “Ryda ni mor falch ein bod yn medru cario mlaen i gynnig cefnogaeth i'n aelodau, a helpu pobl i ymdopi. Mae'n teimlo bo ni gyd dal yn rhan o un deulu mawr sydd yn mynd trwy'r cyfnod heriol yma efo'n gilydd ”

### 3.4 Heriau wrth symud ymlaen

Mae profiadau'r Cyngor a'i staff dros y flwyddyn wedi amlygu nifer o heriau y bydd angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt ac ystyried sut i'w datrys dros y misoedd nesaf.

- **Sgiliau staff**

Sut ydym ni'n sicrhau cyfleoedd effeithiol i ddysgu ac ymarfer sgiliau Cymraeg wrth i'r model gweithio newid yn y tymor hir? Er mwyn sicrhau nad yw ein gallu i gynnig y gwasanaeth Cymraeg rhagweithiol yn lleihau/gwanhau, mae angen i ni weithio i sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a'r hyder priodol.

Mae'n amlwg bod y pandemig a'r newid i ddarparu rhagor o hyfforddiant ar-lein wedi bod yn gadarnhaol ac wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff Cyngor Gwynedd ddysgu a datblygu eu Cymraeg. Rhoddodd yr argyfwng gyfle i gomisiynu gwersi na allai fod wedi bod yn bosib cyn y pandemig. Er enghraifft, trefnwyd i ddau gohort o ddysgwyr ar ddwy lefel wahanol dderbyn gwersi ar-lein trwy Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin – gwersi a fu'n anodd iawn eu trefnu wyneb-i-wyneb cyn y pandemig oherwydd patrwm gwaith ac argaeledd tiwtoriaid. Bu'r newid i ddysgu ar-lein hefyd yn gymorth i fwy o staff (yn enwedig staff sy'n gweithio shiftiau) fynychu gwersi neu hyfforddiant Cymraeg oherwydd ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd a llai o waith teithio i leoliad dysgu. Bydd yn bwysig ein bod yn adeiladu ar y llwyddiannau yma.

- **Defnydd anffurfiol – magu hyder staff yn eu Cymraeg**

Roedd arolwg a gynhaliwyd ymysg ein staff (ar gais y Comisiynydd) yn awgrymu bod nifer yn colli'r cyfleoedd anffurfiol oedd ar gael wrth weithio yn swyddfeydd y Cyngor. Yr her i ni yw sut rydym yn ail-greu'r sefyllfaoedd hynny wrth i'r model gweithio newid yn y tymor hir.

Roedd adborth gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu hefyd yn nodi fod posibilrwydd i'r diffyg cyswllt anffurfiol yma rhwng swyddogion - yn y swyddfa, ar y coridor neu yn y gegin - arafu datblygiad rhai unigolion wrth geisio dysgu'r Gymraeg gan nad yw'r un cyfleoedd ar gael gartref i ymarfer eu sgiliau rhwng y gwersi mwy ffurfiol. Nid oes tystiolaeth gadarn i gefnogi hyn, ond mae ein Cynllun Cyfeillion Cymraeg yn cynnig y cyfleoedd anffurfiol hynny i ddysgwyr allu cadw'r momentwm wrth weithio gartref a bydd yn bwysig i ni edrych ar ffyrdd newydd o gynnal y cysylltiadau hyn.

- **Recriwtio**

Mae'r profiad o sefydlu gwasanaethau newydd ar fyr rybudd wedi amlygu'r angen am weithwyr rheng flaen sydd yn siarad Cymraeg. Er bod staff y Cyngor ei hun yn meddu ar y sgiliau cywir, mae cyfle wrth symud ymlaen i sicrhau bod ymwybyddiaeth gadarn ar draws yr awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, o'r angen am weithlu sydd a'r sgiliau priodol, er mwyn sicrhau bod y gweithlu cywir gennym mewn unrhyw sefyllfaoedd o gydweithio.

- **Cyfieithu mewn cyfarfodydd**

Mae'n amlwg bod cryn dipyn o waith yn dal i wneud i wella'r ddarpariaeth yn y maes yma, ac mae Cyngor Gwynedd mewn lle da i fod yn gallu rhannu arferion da ac i annog sefydliadau eraill i weithredu yn yr un modd. Mae angen codi ymwybyddiaeth ein partneriaid o'r angen i gael yr agwedd gywir tuag at gyfieithu ar y pryd, i sylweddoli'r angen i fod yn gwneud cynnig rhagweithiol ac i beidio â'i weld fel rhywbeth sydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y siaradwyr Cymraeg yn unig.

- **Defnydd y cyhoedd o wasanaethau**

Mae deall arferion y cyhoedd wrth ddefnyddio ein gwasanaethau – beth sydd yn eu gyrru i wneud penderfyniadau o safbwynt defnydd iaith – wedi bod yn faes o ddiddordeb ers cryn amser. Roeddem wedi adrodd y llynedd am waith arsylwi a gynhaliwyd gan swyddogion y Comisiynydd yn ein derbynfydd, a bwriad i ddatblygu ar y gwaith hwnnw gyda mwy o waith arsylwi. Roeddem hefyd wedi nodi ein bod eisiau canolbwytio'r gwaith ar ddeall arferion defnyddwyr ar y gwasanaethau ar-lein, gan mai hwnnw oedd ein pryder mwyaf.

Mae amgylchiadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi gwneud unrhyw waith datblygol yn y maes hwn yn amhosib, ond mae hefyd wedi amlygu'r angen i ddeall newidiadau yn arferion pobl ac i allu ymateb i'r newidiadau hynny yn rhagweithiol.

Wrth i bobl newid eu harferion ymgysylltu gyda ni, ac o ganlyniad i nifer cynyddol o wasanaethau yn cael eu cynnig ar-lein, mae angen i ni fod yn wiliadwrus o newidiadau ac ystyried sut y gallwn ni ddylanwadu ar ddefnydd iaith.

#### 4. Gwaith penodol i wella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ac i sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg gorau

<b>Maes Gwaith</b>	<b>Diweddarau Polisi Iaith y Cyngor</b>
<b>Safonau perthnasol</b>	<b>Pob Safon</b>
<b>Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2020-21</b>	<p>Buom yn gwneud gwaith ar adolygu'r polisi iaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Mae'r penderfyniad i ddiwygio'r polisi wedi ei yrru yn bennaf gan y teimlad nad oedd nifer o sefyllfaoedd gweithio cyfredol yn cael eu hadlewyrchu yn y Polisi cyfredol, nac ychwaith yng ngofynion y Safonau. Nid oedd digon o fanylder, er enghraifft, i'n harwain yn y defnydd cywir o'r Gymraeg wrth gynnig gwasanaethau ar-lein ac yn y defnydd o dechnoleg, ac felly penderfynwyd manteisio ar y cyfle i edrych drwy'r polisi cyfan a gwneud newidiadau fydd yn cryfhau ein hymrwymiad, ac hefyd yn gwneud gofyn y Safonau yn gliriach mewn rhai meysydd.</p> <p>Gan fod gwaith helaeth wedi bod yn cael ei wneud i sefydlu prosiect y Dynodiadau Iaith, er enghraifft, roedd angen diwygio'r darn o'r polisi oedd yn delio gyda phrosesau penodi a recriwtio. Mae nifer o newidiadau eisoes yn weithredol o fewn y broses recriwtio sydd yn cryfhau ein cydymffurfiaeth a bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu o fewn y polisi newydd.</p>
<b>Camau pellach fydd angen eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf</b>	Mae gwaith dal angen ei wneud i gytuno ar y newidiadau ym maes technoleg, ac yna bydd y polisi newydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith a'r Cabinet i'w gymeradwyo.

<b>Maes Gwaith</b>	<b>Defnydd o dechnoleg a gwasanaethau ar-lein</b>
<b>Safonau perthnasol</b>	<b>Cyflenwi Gwasanaethau</b> , yn benodol 52, 55, 56, 57, 58, 59 a 60
<b>Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2020-21</b>	<p>Mae'r maes hwn yn dal i fod yn bryder, ac rydym yn parhau i geisio canfod datrysiadau ar gyfer y tymor hir.</p> <p>Rydym yn parhau i asesu pob un o'r datblygiadau hyn yn unigol, ond rydym hefyd yn dal i wynebu sawl her, yn enwedig wrth brynu</p>

	<p>systemau i mewn nad ydynt wedi cael eu datblygu yn ddwyieithog yn y lle cyntaf. Mae gennym swyddogion yn y gwasanaeth TG, ac mewn gwasanaethau unigol, sydd wedi gweithio yn agos gyda datblygwyr i sicrhau bod yr hyn sydd yn cael ei gyhoeddi ar y diwedd yn gweithio yn unol a'r Safonau, ond rydym yn dal i fod yn wynebu rhwystrau wrth geisio integreiddio systemau allanol i'n gwefan.</p>
<p><b>Camau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf</b></p>	<p>Bydd datblygu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg yn dod yn un o'n blaenoriaethau datblygu dros y blynnyddoedd nesaf.</p>

<p><b>Maes Gwaith</b></p>	<p><b>Asesu Effaith</b></p>
<p><b>Safonau perthnasol</b></p>	<p>88+89+90+94</p>
<p><b>Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2020-21</b></p>	<p><b>Diweddariad 2019 - 2020:</b></p> <p>Mae'r gwaith ar ddatblygu templed asesu effaith integredig ar lefel ranbarthol bellach wedi ei gwblhau ac rydym yn barod i ddefnyddio'r templed newydd o 2021 ymlaen. Bydd yr asesiad hwn yn cwmpasu gofynion Deddf Cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mesur y Gymraeg a'r Ddeddf Llesiant, gan osgoi gorfod dyblygu gwaith a chwblhau mwy nag un asesiad ar gyfer yr un cynllun.</p> <p>Rydym wedi cydnabod yn ystod y flwyddyn nad oedd ein trefniadau mewnol ar gyfer cynnal asesiadau effaith yn ddigon cadarn, ac wedi bod yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth swyddogion o'r angen i gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ac iaith ar gynlluniau a pholisïau, ac yn mireinio'r trefniadau pan fydd asesiadau yn cael eu cyflwyno fel rhan o adroddiadau i Gabinet y Cyngor.</p>
<p><b>Camau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf</b></p>	<p>Codi ymwybyddiaeth a rhoi hyfforddiant priodol i swyddogion a rheolwyr ar draws y Cyngor o'r trefniadau a'r templedi newydd.</p>

## 5. ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170

### 5.1 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

*Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.*

Rydym yn defnyddio ein System Sgiliau iaith newydd i gasglu ein data, sy'n rhoi gwell dadansoddiad i ni o'r sgiliau sydd gan ein gweithwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

	Cwestiwn	Ateb
1	A yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?	Ydi / Nac ydi
2	Beth yw lefel iaith yr aelod o staff ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu?	Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell:** yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff:** mae staff yn cwblhau holiadur sydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae gwaith o gasglu'r asesiadau yn waith parhaus, ac felly rydym yn adrodd ar nifer y staff sydd wedi'u hasesu yn unig. Bydd y nifer hwn felly yn cynyddu a newid wrth i ni barhau gyda'r gwaith dros y flwyddyn nesaf.

Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni yn cynyddu, a gallwn bellach ddechrau adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, gellir ymateb yn rhagweithiol i hynny.

**Mae'r wybodaeth i gyd yn cael ei gasglu yn awtomatig ar y System Sgiliau iaith, ac yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg.** Mae elfen gofnodi data'r system yn ei lle ac yn weithredol, ond rydym yn parhau i ddatblygu adroddiadau fydd yn cynhyrchu'r data mwyaf defnyddiol...'

**NODER:**

- Mae **pob un swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.
- Mae **pob swydd** yn cynnwys gofynion iaith **hanfodol**, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau y gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd ar staff sydd yn aelodau o'r adrannau canlynol (er yn gyflogedig gan y Cyngor) - **GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** - gan eu bod yn gydbwyllgorau ac felly nad ydynt atebol i ofynion y Safonau. Nid ydym yn cynnwys staff ysgolion yn ein data chwaith.

### Adroddiad Sgiliau:

Mae'r wybodaeth isod yn gywir ar amser llunio'r adroddiad ac wedi ei dynnu o'n System Sgiliau Iaith.

### Trosolwg o'r sefyllfa:

<b>Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*</b>	<b>3862</b>	
<b>Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd</b> – yn cynnwys Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau	<b>2401</b>	62%
<b>Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd (Cwestiwn 2)*</b>	<b>2091</b>	54%


\*nid yw'n cynnwys staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, na Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru na staff ysgolion Gwynedd

<b>Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd</b>	<b>2204</b>	92%
<b>Ar sail hunanasesiadau ac asesiadau rheolwyr</b>		
<b>Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd</b>	<b>197</b>	8%
<b>Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)</b>	<b>2084</b>	99.7%
<b>Ar sail yr hunanasesiadau sydd wedi eu casglu</b>		
<b>Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o gwbl</b>	<b>7</b>	0.3%

**Lefelau iaith y staff fesul adran:**

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu yn ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Canolradd neu uwch.

\*Er hwylustod, talfyrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod. Gellir gweld eu henwau'n llawn ar y dudalen nesaf






	Addysg (heb gynwys ysgolion)	Amgylchedd	Cyllid	Cefnogaeth Gorfforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Tai ac Eiddo	Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)	Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol
<b>Hyfedredd</b>	181	66	117	130	81	233	149	56	38	53	9
<b>Uwch</b>	142	36	58	41	43	125	43	35	24	42	6
<b>Canolradd</b>	61	5	9	4	6	57	7	17	1	4	1
<b>Sylfaen</b>	29	2	1	0	4	32	9	2	0	5	0
<b>Mynediad</b>	36	3	0	0	0	58	10	4	3	3	0
<b>Dim sgiliau</b>	2	0	0	0	0	5	0	0	0	0	0

### Lefelau Iaith Swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel:

Mae gofynion lefelau un swydd yn gallu amrywio o un sgil i'r llall, h.y. gall gofynion lefel Siarad a Gwrando fod yn uwch na'r gofynion lefel Ysgrifenedig. O ganlyniad i hyn, rydym yn cyfrif y lefel Siarad a Gwrando fel 'prif lefel' ar gyfer pwrpas adrodd lefelau swydd gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol.



Rydym yn gallu edrych ar y dadansoddiad hwn ar lefel adrannol hefyd, gan ein galluogi i weld lle mae'r swyddi lle mae lefelau is wedi eu nodi. Mae nifer o swyddi yr adran Priffyrdd, er enghraifft, yn rhai lle nad oes angen sgiliau uwch yn y Gymraeg oherwydd bod llai o gyswllt uniongyrchol a wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd. Byddwn yn gallu cymryd sampl o'r swyddi hyn ar unrhyw adeg a chynnal gwiriad o ddyndiad y swydd.

## 5.2 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

*Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs*

**Safon 128:** Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -

(a) recriwtio a chyf-weld;

(b) rheoli perfformiad;

(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;

(ch) ymsefydlu;

(d) delio â'r cyhoedd; ac

(dd) iechyd a diogelwch.

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg. Darperir fersiwn Gymraeg a Saesneg o rai cyrsiau ar wahân lle mae galw am hynny, ond fel rheol ceisiwn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol.

### Hyfforddiant Cyffredinol

Nodir y wybodaeth isod ar gyfer pob adran o fewn y Cyngor POB ADRAN (heblaw BYW'N IACH, Cefnffyrdd, GWE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr)

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.20 a 31.03.21 - **686**

Nifer y teitlau – cyrsiau gwahanol – a gynnigwyd yn ystod y cyfnod 01.04.20-31.03.21 – **170**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	289	1044
Saesneg	305	796
Dwyieithog	92	453

**Safon 128- 68 UNIGOLYN WEDI MYNYCHU'R GWEITHDY CROESO YN Y CYFNOD 01.04.20 – 31.03.21**  
(7 digwyddiad wedi ei gynnal)

66 wedi ei gael yn Gymraeg (97%)

2 wedi ei gael yn Saesneg (3%)

**Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH:**

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.20 a 31.03.21 - **72**

Nifer y teitlau – cyrsiau gwahanol – a gynnigwyd yn ystod y cyfnod 01.04.20-31.03.21–**19**

<b>DIGWYDDIADAU</b>		
<b>HYFFORDDI</b>	<b>NIFER</b>	<b>MYNYCHWYR UNIGRYW</b>
Cymraeg	34	9
Saesneg	27	213
Dwyieithog	11	118

### 5.3 Safon 154: Adrodd ar gategoreiddio swyddi

Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn

(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;

(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;

(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu

(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	441
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

Mae pob swydd a hysbysebir gan y Cyngor yn cynnwys gallu yn y Gymraeg fel sgil hanfodol.

Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu gyda datganiad sydd yn nodi mai'r Gymraeg yw iaith weithredol y Cyngor, a bod angen i ymgeiswyr feddu ar y sgiliau iaith sydd wedi eu nodi yn y swydd ddisgrifiad (h.y. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol). Mae union lefel y sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen a deall sydd eu hangen yn cael eu nodi o fewn Manylion Person y swydd.

Os na fydd modd penodi unigolyn gyda'r sgiliau cywir ar yr hysbysiad cyntaf, bydd modd i reolwyr wneud cais i addasu geiriad y datganiad i annog ymgeiswyr newydd ac i ganiatáu penodi rhywun sydd ddim eto yn cyrraedd y gofynion ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu. Bydd posib cynnwys cymal o fewn cytundeb i nodi'r ymrwymiad a bydd rhaglen hyfforddiant yn cael ei chytuno ar y cyd gyda'r rheolwr a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. **Ni fydd** dynodiad iaith y swydd yn cael ei newid, felly mae'r gofyniad uchod bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd yn parhau.

## 5.4 Adrodd ar gwynion iaith

*Nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*

### Nifer ymholiadau cyn ymchwilio gan y Comisiynydd: 3

- Gwasanaeth Catalog Llyfrgelloedd ar-lein
- Arwydd ffordd uniaith, Caernarfon
- Arwydd ffordd Pwllheli

Cwynion a dderbyniwyd yn fewnol yn erbyn y Polisi Iaith

Adran	Nifer y Cwynion	
Amgylchedd	1	Cwyn am ap parcio Pay by Phone, gan nad yw ar gael ar bob ffon yn y Gymraeg.
Cyllid	1	Safon iaith mewn llythyr am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
Cefnogaeth Gorfforaethol/Cyllid	1	Asesiad Effaith ar Gyllideb y Cyngor
Oedolion	1	Ffurflenni cais grant (Grant Llywodraeth Cymru)
<b>Cyfanswm</b>	<b>4</b>	

## Atodiad 1:

### Adroddiad Hyfforddiant Iaith 2020-21

#### Cyflwyniad

O ganlyniad i'r newid o ddysgu ar-leoliad mewn ystafell ddosbarth i ddysgu o bell, ar-lein, gwelsom gynnydd yn y nifer o unigolion yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu neu ddatblygu eu Cymraeg. Yn gyffredinol, y prif resymau dros hyn oedd:

- **dim angen teithio** – o ganlyniad, staff yn gallu treulio mwy o amser yn y gweithle
- **adnoddau ar gael ar-lein**
- **hyblygrwydd yn y trefniadau**, o ran math o gyrsiau ac o ran amser
- **dim cyfyngiadau daearyddol**, h.y. gallu cael mynediad at unrhyw gwrs o unrhyw le

Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i staff i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn:

- Sesiynau mewnol ar-lein gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg)
  - Sesiynau 1:1
  - *Cwrs Ysgrifennu Ffurfiol*
- Cyrsiau cymunedol dros flwyddyn academaidd (gwersi wythnosol ar-lein)
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiwtoriadaid allanol
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy)
- Cyrsiau hunanastudio ar-lein e.e. *Hunanastudio lefel Mynediad, Croeso Cymraeg Gwaith a Gwella Cymraeg Gwaith*
- Cyrsiau a gomisiynwyd yn arbennig ar lefelau amrywiol

O ran darpariaeth fewnol, byddwn yn ehangu'r dewis sydd ar gael yn ystod y misoedd nesaf trwy beilotu cwrs Gloywi Iaith ar-lein newydd fydd yn cymryd lle'r Gloywi Iaith traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth, cyn ehangu'r dewis trwy gynnis hyfforddiant megis *Treiglo a Defnyddio Technoleg Cymraeg*.

#### Rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn

##### **Llwyddiannau dysgwr o'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Am flynyddoedd, bu'n her dod o hyd i drefniant sefydlog ac effeithiol ar gyfer rheolwr gwasanaeth yn yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Oherwydd natur ei waith, roedd amser yn brin, ac roedd mynychu cwrs rheolaidd, megis cwrs wythnosol neu ryddhau amser ar gyfer cwrs dwys yn amhosib. Nid tasg hawdd oedd dod o hyd i diwtor fyddai'n gallu ymweld â'r gweithle i gynnal sesiynau 1:1 iddo chwaith.

Bellach, diolch i'r cyfleoedd newydd sydd wedi codi yn sgîl y pandemig, mae'n derbyn gwersi 1:1 wythnosol gyda thiwtor ac yn gwneud cynnydd arbennig. Mae'r ffaith y gellir teilwra'r cwrs i'w

anghenion yn fuddiol iawn ac yn golygu y gall ddefnyddio'r hyn mae'n ei ddysgu yn ei waith bobdydd, ac mae hyblygrwydd yr amser cyfarfod yn gweddu ei amserlen yn berffaith.

Yn ogystal â chanmoliaeth uchel ei diwtor, mae'n braf nodi i'w reolwyr a'i gydweithwyr weld ei gynnydd ar waith hefyd, er enghraifft, nid yw'r Pennaeth Adran yn anfon e-byst dwyieithog i'r Tîm Rheoli mwyach, a hyd yn oed yn derbyn rhai e-byst yn ôl yn Gymraeg. Meddai'r Pennaeth Adran: *"Mae o yn cyfrannu i'r Tîm Rheoli drwy gyfrwng y Gymraeg ers rhai wythnosau – a heddiw gwnaeth hynny mor naturiol fel ei fod yn defnyddio ein geirfa dydd i ddydd yn hytrach na geirfa ffurfiol"*.

## Cyrsiau comisiwn

Comisiynwyd sawl cwrs arbennig ar gyfer ein staff yn ystod 2020-21, yn bennaf oherwydd anghenion amrywiol ein gweithlu. Dyma ambell enghraifft o'r cyrsiau a drefnwyd:

Lefel	Manylion y cwrs	Nifer y mynychwyr	Rhagor o wybodaeth
Mynediad	Gwersi wythnosol, Awr o hyd dros 10 wythnos	8	Sylweddolwyd bod nifer o staff sy'n gweithio shifftiau neu staff rheng flaen yn methu ymrwmo i gwrs cymunedol neu gwrs dwys oherwydd yr hualau sydd ynghlwm â chwrs o'r fath. O ganlyniad, comisiynwyd cwrs byr, 10 wythnos, er mwyn cyflwyno'r Gymraeg a rhoi blas o elfennau'r Gymraeg, ar amser a dyddiad y gallai'r mynychwyr ymrwmo iddo. Mae 3 o'r rhain bellach yn dilyn cwrs newydd hunanastudio Cymraeg Gwaith.
Canolradd Rhan 1	Gwersi wythnosol 1 awr o hyd dros 10 wythnos	7	Cynhaliwyd y cwrs hwn rhwng mis Mai a Gorffennaf 2020 ar gyfer aelodau o staff Byw'n Iach ar gais yr adran. Cafwyd cryn drafferth ymateb i'r cais yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020, yn bennaf oherwydd diffyg tiwtoriaid a allai ateb y gofynion a chynnal y cwrs ar leoliad yn ne Gwynedd. Ond, o ganlyniad i symud y ddarpariaeth ar-lein, llwyddwyd i gynnal y cwrs o bell ar Skype – y cwrs cyntaf o'i fath i ni ei drefnu.
Canolradd Rhan 2	Gwersi wythnosol 3 awr o hyd dros 15 wythnos	8	O ganlyniad i lwyddiant y cwrs Canolradd Rhan 1 ar gyfer staff Byw'n Iach, trefnwyd dilyniant iddynt rhwng mis Hydref 2020 a Chwefror 2021, ac yna'r gyfres olaf hon o wersi rhwng Mawrth a Mehefin 2021. Ar ddiwedd y cwrs, bydd y dysgwyr yn cwblhau lefel Canolradd ac yn cael y cynnig i sefyll arholiad a/neu barhau i astudio ar gwrs lefel Uwch ym mis Medi. Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth ganolog iddynt gyda Chyfaill Cymraeg.
Gloywi Iaith	6 sesiwn diwrnod cyfan mewn bloc o 3 diwrnod dros gyfnod o bythefnos	7	Yn ogystal â threfnu cyrsiau i ddysgwyr, credwn bod cynnal safon ein siaradwyr Cymraeg rhugl cyn bwysiced. Daeth y cyfle gan Cymraeg Gwaith am gwrs o fath newydd – cwrs dwys, chwe diwrnod wedi'i rannu'n ddau bloc o dridiau am bythefnos. Cafwyd ymateb da gan nifer o wahanol adrannau o'r Cyngor ac

			<p>roedd yn braf gweld staff a rheolwyr yn fodlon rhoi ymrwymiad amser dwys i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith.</p> <p>Yn wir, cymaint oedd llwyddiant y cwrs mewn un adran nes i'r Pennaeth wneud cais am gwrs arall i garfan arall o staff ddiwedd mis Mawrth, a chyfres arall i'w threfnu ym mis Mehefin.</p>
--	--	--	--

### Cyrsiau hunanastudio Cymraeg Gwaith

Mae'n hysbys i ni ers peth amser bod rhai carfannau o staff, yn bennaf y rheiny sy'n gweithio shifftiau neu sydd ar y rheng flaen, yn ei chael hi'n anodd ymrwymo i wersi "traddodiadol", e.e. cyrsiau cymunedol neu gyrsiau dwys a gynhelir bob dydd am wythnos gyfan, oherwydd natur ar-alw eu swyddi.

Er lleddfu'r rhwystr hwnnw i raddau wrth i wersi symud ar-lein, roedd y cyrsiau hunanastudio ar-lein a ddatblygwyd gan Cymraeg Gwaith yn caniatáu i fwy byth o ddysgwyr allu manteisio ar gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg. Er enghraifft, daethpwyd i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i ganiatáu i staff o Ysgol Friars, Bangor, gofrestru ar y cwrs Hunanastudio Mynediad Rhan 1 ym mis Rhagfyr 2020. Roedd natur hyblyg y cwrs, lle gellid cwblhau unedau gwaith ar unrhyw adeg yn ystod yr wythnos, yn golygu bod staff yr ysgol yn gallu cydbwyso gwaith dydd i ddydd a chwrs mewn modd na ellid ei wneud o'r blaen. Bydd rhai o'r dysgwyr a gwblhaodd Rhan 1 yn symud ymlaen i Ran 2 ym mis Mehefin, ac er bod amgylchiadau'r pandemig wedi golygu na lwyddodd pawb i gwblhau'r cwrs, bu'r cwrs a'i egwyddorion hyblyg yn llwyddiant newydd yn y maes hwn. Rydym yn bwriadu cynnig yr un cwrs yn ehangach i staff ar y rheng flaen, er enghraifft cymorthyddion gofal cartref, yn y dyfodol.

### Cynllun Cyfeillion

Lansiwyd ein Cynllun Cyfeillion yn 2019 er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg newydd yn y gweithle a pharhau i hogi eu gallu yn yr iaith y tu allan i'r dosbarth, a hynny yng nghwmni siaradwyr rhugl ar draws y sefydliad. Cafodd y Cynllun ei groesawu gan nifer o siaradwyr rhugl y Cyngor hefyd, gan ei fod yn gyfle iddynt gefnogi dysgwyr ar eu taith ddysgu a chynnig cymorth a chlust i wrando mewn awyrgylch anffurfiol.

Un enghraifft o lwyddiant y Cynllun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ydi bod Cyfaill o ardal Dolgellau wedi gallu cyfarfod â dysgwyr yn ardal Arfon, a hynny dros Microsoft Teams – rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl cyn y pandemig. Mae'r dysgwyr, sydd yn dilyn cyrsiau cymunedol ar hyn o bryd, yn nodi bod cael y cyfle i siarad mewn awyrgylch anffurfiol ac ar amser sy'n gyfleus iddynt, yn helpu eu datblygiad yn fawr ac yn caniatáu gofod diogel iddynt ddefnyddio'r iaith, gwneud camgymeriadau ac elwa ar brofiad a sgiliau'r Cyfaill.

Mae Cyfaill arall yn helpu siaradwr rhugl gyda gloywi iaith, ac yn trefnu sesiynau yn ôl y galw gyda'r unigolyn. Yn ôl yr unigolyn sy'n cael ei fentora:



*“Dw i eisiau diolch i’r Cyfaill am ei hamser am fy helpu i wella fy Nghymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae fy sgiliau cyfathrebu llawer gwell erbyn hyn ac mae gennyf fwy o hyder rŵan ac yn ei weld yn haws cyfathrebu yn y cyfrwng Cymraeg.”*


Byddwn yn parhau gyda’r trefniadau presennol ac yn chwilio am ragor o Gyfeillion i gefnogi dysgwyr yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Mae’r tablau isod yn cynnig rhagor o wybodaeth ynglŷn â’r hyfforddiant iaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2019-2020.**


#### **NIFER Y MYNYCHWYR YN ÔL MATH/TEITL CYRSIAU**

<b>Cwrs</b>	<b>Nifer Unigolion</b>
<b>Mewnol</b>	
Sesiynau 1:1 gyda thiwtor mewnol	1
Sesiwn Sgwennu Ffurfiol	5
<b>Allanol</b>	
Cyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg	8
1:1 gyda thiwtor allanol	2
Cyrsiau dwys	11
Cyrsiau hunanastudio ar-lein (Cymraeg Gwaith)	13
Comisiynau amrywiol	39
	79

#### **NIFER MYNYCHWYR YN ÔL MATH A LEFEL Y CWRS**



Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draws adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:



## EITEM 5 A

<b>CYFARFOD</b>	PWYLLGOR IAITH Y CYNGOR
<b>DYDDIAD</b>	22/06/2021
<b>TEITL</b>	Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032
<b>PWRPAS</b>	I ystyried cynnwys y Cynllun drafft a chynnig sylwadau
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad
<b>AWDUR</b>	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
<b>AELOD CABINET</b>	Cynghorydd Cemlyn Williams

### Rhagarweiniad a chyd-destun

Y mae'n ofynnol, o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), ac i gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, i bob Awdurdod Addysg Lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf, yn ogystal â'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017, ac fe ddiweddarwyd y Cynllun am y tair blynedd dilynol. Oherwydd amgylchiadau di-gynsail Pandemig Covid-19, ymestynnwyd ei gyfnod am un flwyddyn yn ychwanegol. Bydd y Cynllun hwn yn weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd, o fis Medi 2022 hyd 31ain Awst 2032. Rhoddwyd sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.

Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.

### Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Bydd y Cynlluniau yn fodd i Lywodraeth Cymru allu monitro'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn ymateb i'r angen i weithredu nodau'r Strategaeth a chyfrannu tuag atynt trwy: sicrhau bod pob cam o brosesau addysg yr awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg;

- ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, lle bo galw, ar sail cynllunio gwell;
- sicrhau fod gwasanaethau cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno ar sail consortia;
- wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc; a
- dangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Bwriad y Cynllun Strategol yw:

- disgwyl i awdurdodau lleol fod yn atebol i Lywodraeth Cymru am gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a iaith Gymraeg;
- adlewyrchu nodau'r Strategaeth;
- darlunio'r sefyllfa bresennol, amlinellu'r gweithgareddau priodol a dangos cynnydd;
- bod yn hwylus ac yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol; a
- dangos cynnydd clir **dros ddeng mlynedd** ym mhob awdurdod lleol ac ardal consortiwm tuag at gyflawni targedau'r Strategaeth.

Canolbwyt y Cynlluniau yw'r targedau a geir yn y Strategaeth a disgwylir i'r Awdurdod adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd yn erbyn y deilliannau canlynol:

<b>DEILLIANNAU'R CSGA</b>	
<b>1</b>	Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
<b>2</b>	Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
<b>3</b>	Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall.
<b>4</b>	Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
<b>5</b>	Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
<b>6</b>	Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnys Addysg (Cymru) 2018)
<b>7</b>	Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **Amserlen Ymgynghori Anffurfiol CSGA**

<b>PRYD</b>	<b>PWY</b>
27 Mai 2021	Tîm Rheoli Addysg
9 Mehefin 2021	Penaethiaid Cynradd
9 Mehefin 2021	Penaethiaid Uwchradd
22 Mehefin 2021	Pwyllgor Iaith
29 Mehefin 2021 – 1 Medi 2021	Ystyried ac ymgorffori sylwadau'r ymgynghori anffurfiol

#### **Argymhelliad**

Atodir copi drafft o'r 'Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032' ar gyfer sylw aelodau'r Pwyllgor Iaith gan ofyn am eu sylwadau fel rhan o'r ymgynghori cyn cyflwyno'r fersiwn drafft i Lywodraeth Cymru erbyn Ionawr 2022.

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Enw'r Awdurdod Lleol

Gwynedd

Cyfnod y Cynllun hwn

Medi 2022-Awst 31ain, 2032.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*<sup>1-2</sup>. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

<sup>1</sup> [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#)

<sup>2</sup> [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Coronafeirws\) 2020](#)

## Nodiadau i'ch cynorthwyo

Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deiliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.

Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Rhan 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

<https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg>

Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.

## Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg yn ein hardal

“Rwy’n falch o gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae’r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth. Mae’r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni’r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a’r economi yn lleol.

Mae Adrannau’r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Gymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymgorfforir yma weledigaeth *Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd (2013-23)*, a rhoddir ystyriaeth yn ogystal, i ofynion y deddfau a’r strategaethau canlynol wrth lunio’r Cynllun: *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015)* *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen (2016-2021)*, *Cytundeb Blaengar (2016)*, *Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (2018)*.”

Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams,  
Aelod Cabinet Addysg.

“Mae hi’n gyfnod hynod o gyffrous i’r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd, ac yn gyfrwng i’w harfogi fe dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a’u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo’r sgiliau hynny’n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.”

Garem Prytherch Jackson  
Pennaeth Addysg Gwynedd.

Ein nod yw sicrhau y bydd yr holl rhanddeiliaid yn gweithredu’n effeithiol mewn perthynas â’r Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i’r nesaf yn unol â’r trefniadau a nodir yn y **Cytundeb Partneriaeth** rhwng yr Awdurdod a’r ysgolion a’r cylchoedd meithrin. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn tynnu sylw’r aelodau etholedig lleol ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr at unrhyw faterion o bryder sydd yn berthnasol i ddiffyg gweithredu ar gynnwys y Polisi Iaith neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

## **Cysylltu**

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gymraeg, Polisi Iaith Addysg, neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gallwch gysylltu â:

Pennaeth Addysg  
Adran Addysg  
Pencadlys  
Cyngor Gwynedd  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Ffôn: 01286 679 467

e-bost: [garemjackson@gwynedd.llyw.cymru](mailto:garemjackson@gwynedd.llyw.cymru)

## **Fersiynau Hygyrch**

Os y dymunir, gellir darparu fersiynau hygyrch o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2017-20 ar gais; mae hyn yn cynnwys:

- Fersiwn print bras
- Fersiwn ar dâp
- Fersiwn mewn braille
- Fersiwn iaith arwyddion (BSL)

Cysylltwch gyda'r Pennaeth Addysg i archebu fersiwn hygyrch.



## Deilliant 1

### Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Ble rydym ni nawr?

Nod Polisi Iaith Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 58 o leoliadau addysg nad sy'n cynnal y Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd.

Mae cytundeb darparu addysg feithrin Gwynedd yn ei gwneud yn hanfodol i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

Ardal	Nifer Cylchoedd Meithrin	Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg	
Arfon	28	834	99.3%
Dwyfor	18	301	100%
Meirionnydd	19	346	100%

#### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn anelu i barhau i gynnal y safonau uchel o gyrraedd y targed o 100% o blant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Gwneud defnydd o ddata o adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.	Cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. <a href="#">Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</a>
	Monitro'n rheolaidd yr holl leoliadau, gan gynnwys leoliadau'r mudiadau gwirfoddol, i sicrhau'u cydymffurfiaeth â gofynion Polisi Iaith y Sir.

	<p>Cydweithio gyda'r Mudiadau gofal plant i hyrwyddo'r prosiect 'EDI' - rhan o'r cynllun 'Cymraeg Gwaith' sy'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, ar gyfer unrhyw aelodau staff angen cryfhau eu defnydd o'r iaith yn y gweithle.</p> <p><b>Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO)</b>  <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</b></p>
<p>Darparu gwybodaeth i rieni o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg gaiff ei gynnig.</p>	<p>Manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu a chyd-gynllunio gyda chyrrff ym maes y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Mudiad Meithrin, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau llwybr didor at addysg ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith y Sir.</p> <p><b>Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO)</b>  <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</b></p>
<p>Darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr sy'n datgan bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bersonau, waeth beth fo'u cefndir ieithyddol.</p>	<p>Sicrhau bod gwybodaeth glir a chynhwysfawr yn cael ei chynnwys yn y llyfryn/trefniadau ar gyfer derbyniadau cyfrwng Cymraeg, gan ei adolygu a'i ddiweddarau'n gyson.</p> <p><b>Swyddogion Addysg (DJ/RhPJ)</b></p> <p>Cynnwys y wybodaeth berthnasol ar wefan yr Awdurdod.</p> <p><b>Swyddogion Addysg (DJ/RhPJ)</b></p>
<p>Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.</p>	<p>Manteisio ar ymgyrchoedd a rhaglenni marchnata'r Llywodraeth e.e gwefannau, sianel YouTube, sianeli eraill y Llywodraeth wrth wneud hynny.</p> <p><b>Cydllynydd Siarter Iaith/</b>  <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</b>  <b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p> <p>Darparu hyfforddiant i swyddogion sy'n ymdrin ag ymholiadau gan rieni ar sut i drafod yr opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ogystal â chwestiynau/pryderon cyffredin all godi.</p> <p><b>Cydllynydd Siarter Iaith/</b>  <b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p> <p>Sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog.</p> <p><b>Cydllynydd Siarter Iaith/ Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO)</b>  <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</b></p>

	<p>Cyfeirio unigolion at lenyddiaeth a chyhoeddiadau Cymraeg a darparu gwybodaeth am gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, gan roi ystyriaeth i beth allai fod yn bryder i rieni/gofalwyr. Ymateb i'r pryderon hynny mewn gwybodaeth/llynyddiaeth sy'n cael ei dosbarthu.</p> <p><b>Cydllynydd Siarter Iaith/ Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar</b> <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</b></p>
	<p>Cyd-weithio gyda chyrrff cyhoeddus megis Cymraeg i Blant, Consortia Rhanbarthol, RhAG, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith.</p> <p><b>Cydllynydd Siarter Iaith/</b> <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</b></p>
	<p>Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, gan arddel y Gymraeg, gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.</p> <p>Negeseuon cyson a chlir yn cael eu rhannu gyda rhieni am drefn a gweledigaeth y Sir. Llawlyfr Gwybodaeth i Rien i yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i atgyfnerthu'r prif negeseuon. Amlygu Polisi Iaith y Sir ym mhob trafodaeth gyda rhieni. Parhau i geisio ysbrydoli'n plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.</p> <p><b>Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith</b> <b>Gymraeg/Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)/Penaethiaid ac athrawon ysgolion</b></p>

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd fe ddylai Gwasanaethau Addysg y Blynyddoedd Cynnar fod yn cynnal yr un safonau uchel, ac yn sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog ymhob un o'r darpariaethau.

### Data Allweddol

Nid oes unrhyw ddata genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022.

Niferoedd a % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027

2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	

## Deilliant 2

### Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Ble rydym ni nawr?

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 80 Ysgol Gynradd, 2 Ysgol Ddilydol a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2018-19, bu i 98.5% o ddysgwyr gael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â nifer y disgyblion dosbarth derbyn/pump oed sydd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

BLWYDDYN	NIFEROEDD
2021	1127
2022	1105
2023	1019

#### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn anelu i sicrhau y bydd 100% o'n dysgwyr dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy sicrhau hyfforddiant priodol i gefnogi a chynnal staff fydd angen y gefnogaeth i'w galluogi i wneud hynny. Amlinellir ein prif amcanion i gyflawni'r deilliannau yma:

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Sicrhau bob pob dysgwr dosbarth derbyn/5 oed yng Ngwynedd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.	Sicrhau bod yr ysgolion yn ymwybodol o'r drefn yng Ngwynedd. <b>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b>
	Arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen yn egwyddorion addysg drochi i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi. <b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ) Staff Ysgolion</b>

	<p>Bydd yr ysgolion yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion pump oed ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg.</p> <p><b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ GwE</b> <b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
	<p>Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn derbyn cefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi ac yn meithrin sgiliau'r Gymraeg yn gynnar.</p> <p><b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b> <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GapRh)</b></p>
	<p>Sicrhau rhaglen o hyfforddiant priodol ar gyfer staff CS yn athrawon a chymorthyddion yn maes trochi ieithyddol.</p> <p><b>GwE/</b> <b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
	<p>Sicrhau y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.</p> <p><b>GwE/</b> <b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
	<p>Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.</p> <p><b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
	<p>Darganfod gwaelodlin o ran sefyllfa'r Gymraeg yn y CS er mwyn deall anghenion y dysgwyr/gweithlu yn y sector yma. Ymateb i'r negeseuon ac yna ymgysylltu yn gyson i fonitro cynnydd gan addasu'r blaenoriaethau yn ôl y gofyn.</p> <p><b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
	<p>Llunio a sicrhau bod cynllun gweithredu manwl gyda thargedau pendant ar waith os neu ble mae'r disgwyliadau wedi llithro.</p> <p><b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
<p>Ystyried sut y bydd newidiadau arfaethedig i ddynodiadau ysgolion yn ôl eu darpariaeth yn effeithio ar ymrwymiad y Sir i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog/ffrwd ddeuol o fewn y Sir.</p>	<p>Bydd unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, yn ddarostyngedig i ofynion y Polisi Iaith. Bydd rhai ysgolion penodol yn derbyn targedau penodol i sicrhau eu bod yn ehangu ar eu harlwy cyfrwng Cymraeg yn sgil gweithredu gofynion y Dynodiadau Iaith.</p> <p><b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</b> <b>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
<p>Sicrhau bod gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu, a chynlluniau cadarn mewn lle i gefnogi ble bydd angen.</p>	<p>Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu, a bydd yr holl weithlu addysg yn gyfrifol am lenwi Hunanasesiad Sgiliau Iaith yn flynyddol er mwyn diweddarau'n briodol i arddangos cynnydd.</p>

	<p>Cydlynnydd Siarter Iaith/Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
<p>Sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofawyr.</p>	<p>Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, gan arddel y Gymraeg, gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny. Negeseuon cyson a chlir yn cael eu rhannu gyda rhieni am drefn a gweledigaeth y Sir. Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i atgyfnerthu'r prif negeseuon.</p>
	<p>Amlygu Polisi Iaith y Sir ym mhob trafodaeth gyda rhieni. Parhau i geisio ysbrydoli'n plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny. Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg/Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Penaethiaid ac athrawon ysgolion</p>
	<p>Anelu at newid agweddau / cynnal agweddau iach tuag at yr iaith a manteision dwyieithrwydd, gyda phob ysgol yn gyfrifol am gyflwyno a throsglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd yna o fod yn hyfedr ddwyieithog. Cydlynnydd Siarter Iaith/Cydlynwyr Iaith Dalgylchol/Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Mentrau Iaith</p>
	<p>Bwrdd Prosiect Deilliant 2 i drafod ac adrodd yn ôl i'r Fforwm Iaith. Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Bwrdd Prosiect Deilliant 2</p>
	<p>Sicrhau bod digon o adnoddau deniadol o safon ar gael ar wahanol ffurfiau a phlatformau i ddiwallu anghenion y CS ac i hybu patrymau iaith a datblygiad y Gymraeg y neid dysgwyr ieuengaf. GwE</p>

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd fe ddylai'r Gwasanaeth fod yn arddangos twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, sydd yn caniatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi aroloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

--

**Data Allweddol**

Nid oes rhagolwg pellach na 2023/24 ar gael gan nad oes unrhyw ddata genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi’u cofnodi yn 2022.

Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
1105		1019							
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	



## Deilliant 3

### Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

#### Ble rydym ni nawr?

Bydd Cydlynwyr Iaith pob Clwstwr o fewn y Sir yn atebol i Gydlynnydd Siarter Iaith a Chydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd yr Awdurdod. Fe fydd yn aelod o staff o blith ysgolion cynradd neu ysgol uwchradd o fewn y dalgylchoedd. Bydd yn annog a sbarduno trafodaeth fydd yn sicrhau cydweithio rhwng yr holl ysgolion, gan sicrhau llinellau clir o gyfathrebu wrth ddod i benderfyniadau. Bydd y Cydlynnydd Clwstwr yn mynychu Cyfarfod Clwstwr tymhorol, fydd wedi'u trefnu gan yr Awdurdod, ac a fydd yn cael eu mynychu gan GwE, gan adrodd yn ôl i berson cyswllt ym mhob ysgol gynradd, a'r ysgol uwchradd, am gynnwys trafodaethau a phenderfyniadau. Bydd y Cydlynnydd Clwstwr yn hybu cydweithio, yn unol â deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Rhoddir pwyslais yn y Polisi Iaith ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn. Rydym yn edrych ar ffyrdd y gall ysgolion cynradd ac uwchradd gydweithio mewn partneriaeth agos i dargedu rhieni/gofalwyr er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol, ac yn sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad gyda rhieni yn ymwybodol o'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a dilyniant ieithyddol i allu ateb cwestiynau all godi.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.

O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

2018-19	Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (Iaith Gyntaf)	84.5%
2018-19	Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro)	78.8%
2018-19	Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro)	86.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro)	91.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail Iaith (asesiadau athro)	77.1%

**Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Byddwn yn cynllunio'n briodol i sicrhau bod disgyblion a addysgir yn ddwyieithog yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall. Byddwn yn cydweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod disgyblion yn dilyn trywydd ieithyddol sy'n ddatblygiad naturiol o un flwyddyn i'r llall ac o un cyfnod allweddol i'r llall, ac yn monitro hyn yn ofalus. Byddwn yn trafod ac adnabod ar y cyd gyda'r ysgolion, gyfleoedd i gynyddu'r gyfran o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei chynnig gan osod targedau sydd yn gyraeddadwy i'w cyflawni ac sy'n eu gallugoi i gyflawni gofynion Dynodiad Iaith yr ysgol.

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Sicrhau cysondeb traws sirol drwy sicrhau fod pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel iaith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, a thrwy hynny, cynyddu'r % a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg iaith Gyntaf.	Monitro a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgolion er mwyn sicrhau cynnydd yn y % a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. Cydweithio gyda ysgolion penodol i sicrhau parhad ieithyddol o GA2 i GA3. <b>Cydlynwyr Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
Cynyddu nifer canran y disgyblion sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall yn ystod y pum mlynedd cyntaf o weithredu'r Cynllun (fel carreg filltir hanner ffordd) ac un arall ar gyfer gweddill y Cynllun.	Sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth briodol i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg. Sicrhau mynediad at Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, fydd yn cynnig addysg o'r safon uchaf o flwyddyn 2 ymlaen. Bydd cefnogaeth dilynol priodol i unrhyw ddisgybl sy'n newydd ddyfodiad CA2/CA3 i'r sir. <b>Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
Cynyddu canran disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd) (Lefel 2+/Deilliant 5+)	Monitro'n fanwl ac yn gyson safonau yn ein hysgolion ac yn gosod a gwirio targedau ar ddeilliannau a lefelau uwch. <b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Cynradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
Cynyddu canran disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd)	Dadansoddi data profion darllen cenedlaethol ac asesiadau athrawon, a rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau. <b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- ymgynghorydd craidd cynradd/</b>

	Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
Cynyddu canran disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd)	Dadansoddi data asesiadau athrawon ac yn rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Uwchradd/ Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
	Sicrhau y bydd newydd-ddyfodiaid yn derbyn addysg o'r safon uchaf fel rhan o Gyfundrefn Addysg Drochi'r Sir a cefnogaeth briodol i gefnodi unrhyw ddisgybl all fod angen hwb ychwanegol i gynyddu ei hyder'sgiliau yn y Gymraeg. Swyddog Addysg Arfon (DJ), Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GapRh)
	Darparu rhaglen safonol o HMS/DPP sydd o ansawdd uchel. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
	Adnabod plant o fewn ysgolion allai elwa o hwb ychwanegol i'w cefnogi i gyrraedd y trothwy lefel 5+. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Uwchradd/ Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd gweithredu ar y camau uchod yn dystiolaeth o gynnydd yn erbyn ein targedau. Bydd y cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol ac yn sail i ymyrraethau a chamau gweithredu pellach i sicrhau gweithredu mewn modd sydd yn ymateb i dystiolaeth a geir. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi aroloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

### Data Allweddol

Mae'r data isod yn ddata 2018/19 gan nad oes data mwy cyfredol ar gael. Bydd cynnal y safonau isod yn flaenoriaeth.

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
CS/CA2	98.3%								
CA2/CA3	86.9%								
CA3/CA4	84.5%								
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	

### DEILLIANT 3: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD

Cryfhau pontio o'r cynradd i'r uwchradd i sicrhau dilyniant pwrpasol i waith y Siarter Iaith.	Peilota cynllun pontio gyda blynyddoedd 5 a 6 yn yr ysgolion cynradd. Gweithio ar gynllun gydag Adran Y Gymraeg yn yr Ysgolion Uwchradd i hybu'r dilyniant o un Cyfnod Allweddol i'r llall. Darn o waith ymchwil i weld beth sydd yn achosi'r problemau, a pham fod rhai eisiau gwneud 'Ail Iaith' ar ôl trosglwyddo. Defnyddio'r data a gesglir fel sail i lunio cynllun gweithredu fydd yn targedu hynny, ac yn fodd i fesur unrhyw gynnydd neu sgil effeithiau posib.
Dilyniant Y Gymraeg	Ystyried yn union beth yw rôl Cydlynnydd y Strategaeth yn y broses o fonitro hyn a sut mae gwneud hynny mewn modd effeithiol? Angen edrych ar y data a thargedu ble mae angen. Yw hyn yn fwy 'cwricwlaidd' nag o ddefnydd anffurfiol fel sy'n rhan o'r Strategaeth? Angen eglurder ar hyn.
Hybu'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol.	Ystyried sut y gellir cydweithio gyda'r Siarter Iaith er mwyn hybu'r ddelwedd o'r Gymraeg – targedu blynyddoedd 4, 5 a 6? Meddwl am farchnata'r iaith mewn ffordd fydd yn dylanwadu ar y disgyblion ac yn cael ei wreiddio a'i gynnal wedi mynd i'r Uwchradd. Cynnal grwpiau ffocws efo grwpiau mewn ysgolion er mwyn clywed barn a gweithredu ar hynny. Ystyried cynnal digwyddiad i ail-danio diddordeb a sbarduno'r diddordeb unwaith eto.

### DEILLIANT 3: CYNLLUN GWEITHREDU SIARTER IAITH

<p>Uwchsgilio'r gweithlu gan feithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ar draws yr ysgol.</p>	<p>Rhannu gwybodaeth/ trosolwg o'r disgwyliadau sirol/bwriadau cenedlaethol/gofynion Estyn ynghlwm â'r Gymraeg mewn cyflwyniad pwerbwynt. Sicrhau hyfforddiant uwchsgilio'r gweithlu a methodoleg trochi effeithiol er mwyn meithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ayyb (Tybed a fyddai neges 'byw' neu neges wedi'i recordio gan Dyfrig Ellis AEM, ynglŷn â chyfeiriad Estyn ar lafared Cymraeg yn neges bwerus i'w throsglwyddo i benaethiaid? (mi fydda'r neges yna wedyn hefyd yn HWB er mwyn atgoffa staff ar gyfer y dyfodol)</p>
<p>Casglu a dadansoddi data ynglŷn â defnydd iaith a medrau llafar Cymraeg.</p>	<p>Penaethiaid yn ymrwymo i weithredu cynllun datblygu llafaredd. Ysgolion yn adnabod tirwedd ieithyddol eu hysgolion trwy gasglu a dadansoddi data o'r holiaduron gwe iaith</p>
<p>Uwchsgilio'r gweithlu a chefnogi'r gweithredu trwy sicrhau adnoddau pwrpasol.</p>	<p>Uwchsgilio'r gweithlu i weithredu technegau methodoleg trochi effeithiol (sesiwn ar gyfer holl weithlu'r ysgolion sydd wedi ymrwymo i weithredu'r cynllun datblygu llafaredd)</p>
<p>Rhannu profiadau ac arferion effeithiol ac olrhain effaith unrhyw weithredu.</p>	<p>Amserlennu a gweithredu'r cynllun datblygu llafaredd-ysgolion peilot yn rhannu'u profiadau ar arferion effeithiol a sicrhau cydweithrediad holl staff yr ysgol (dau sesiwn rhithiol ar gyfer cydgysylltwyr iaith yr ysgolion)</p> <p>Olrhain effaith y gweithredu a rhannu'r arferion gorau mewn cyfarfod rhwng Cydlynwyr iaith yr ysgolion cynradd/uwchradd. yn rhannu'u bwriadau a thrafod y drefn mwyaf effeithiol o olrhain effaith y gwaith a rhannu'r arferion gorau. Adrodd yn ôl ar weithredu dalgylchol yn dymhorol-cynradd/uwchradd ayyb</p>
<p>Sicrhau cyswllt cynradd/uwchradd gan rannu'r arferion gorau.</p>	<p>Sesiwn cynnal momentwm- sesiwn fyddai yma i rannu syniadau newydd a rhannu'r arferion gorau/mwyaf effeithiol rhwng holl ysgolion y Sir- cyswllt cynradd/uwchradd</p>

## Deilliant 4

### Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Ble rydym ni nawr?

Sicrheir cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnwys astudio cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 ddilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf] er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

2018/19	Dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.	78.1%
2018/19	Dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.	64.2%
2018/19	Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	70.7%

#### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Bydd cynnydd yn niferoedd y dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg; cynnydd yn nifer y dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg; a chynnydd yn nifer y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A\*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf. Bydd pob ysgol yn ymateb i dargedau i gyrraedd y cynnydd, a bydd cynhaliadaeth briodol yn cael ei chynnig a'i monitro'n gyson i'w galluogi i gyflawni'r cynnydd.

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Cynyddu ymhellach ganran y disgyblion sy'n parhau i astudio'u	Sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac wedi manteisio ar bartneriaethau

<p>pynciau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn CA4 hyd at sefyll arholiadau allanol</p>	<p>cydweithredol. Sicrhau bydd staff addysgol yn llenwi Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol, ar ddechrau blwyddyn addysgol i ddiweddaru'r data er mwyn cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol i wireddu hyn.  <b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p> <p>Parhau i geisio gwella a chodi safonau'n y Gymraeg. Bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.  <b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>
<p>Sicrhau bod Cyrsiau Galwedigaethol Cydweithredol a ariennir trwy grant Rhwydwaith 14-19 ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys unrhyw gyrsiau a ddarperir gan y Colegau]</p>	<p>Hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19, gan sicrhau dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith.  <b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p> <p>Bydd disgwyl i bob cwrs 14-16 gaiff ei gyllido trwy'r grant fod ar gael yn ddwyieithog.  <b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p> <p>Blaenoriaeth i barhau i ddatblygu adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog trwy waith Tîm e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19, a gyllidir trwy arian grant 14-19.  <b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p> <p>Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy a gynigir yn caniatáu mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru yn CA4.  <b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>
<p>Sicrhau bod y Grwpiau Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 yn monitro dilyniant ieithyddol y cyrsiau a ddarperir.</p>	<p>Arwain y gwaith cynllunio strategol Ôl-16 yng nghydestun gofynion agenda Trawsnewid gan y Bartneriaeth Ddysgu 16+. Bydd adnabod effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn un o'i brif ffrydiau gwaith.  <b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p> <p>Rhoi sylw i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+.  <b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>

	<p>Monitro data cofrestriadau ar gyfer arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg o bob sefydliad (yn cynnwys cyrsiau partneriaeth Alwedigaethol yn y Colegau) a gosod Targedau Cynnydd i bob sefydliad / cwrs partneriaeth.</p> <p><b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>								
<p>Monitro cyfrwng iaith astudiaethau dysgwyr CA4 a CA5.</p>	<p>Cefnogi ysgolion uwchradd i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p><b>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p> <p>Gweithio gydag adrannau'r Gymraeg yn yr ysgolion gan roi sylw i ostwng y niferoedd nad sy'n sefyll y Gymraeg fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith, er mwyn sicrhau nad oes un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion yn 16 oed heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg.</p> <p><b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>								
<p>Cefnogi Adrannau Iaith yr ysgolion i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg</p>	<p>Cydweithio i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg i sicrhau bod pob disgybl yn parchu pob iaith a dealltwriaeth o iaith. Gweledigaeth y Strategaeth Iaith Uwchradd yn glir o fewn yr adrannau wrth weithredu disgwyliadau i ddisgyblion ddilyn rhaglen Cymraeg Iaith Gyntaf sy'n ddilyniant effeithiol o un cyfnod allweddol i'r llall. Sicrhau profiadau cwricwlaidd fydd yn adeiladu, dangos cynnydd ac yn ddilyniant o un Cyfnod Allweddol i'r llall. Sicrhau cefnogaeth effeithiol i rieni drwy hyrwyddo manteision addysgol dwyieithrwydd, a chreu cyswllt cadarn â'r gymuned, i gyflwyno'r Gymraeg mewn modd adeiladol a chadarnhaol a chroesawgar.</p> <p><b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion</b></p>								
<p>Cynyddu canran disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg</p>	<p>Monitro canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A* i C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gosod targedau ar gyfer ysgolion:</p> <table border="1" data-bbox="762 1572 1378 1720"> <thead> <tr> <th>Sefyllfa gyfredol</th> <th>2018/2019</th> <th>2019/2020</th> <th>2020/2021</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>76.3%</td> <td>78.1%</td> <td>79%</td> <td>DIM DATA AR GAEL</td> </tr> </tbody> </table> <p><b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Ymgynghorwyr GwE/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>	Sefyllfa gyfredol	2018/2019	2019/2020	2020/2021	76.3%	78.1%	79%	DIM DATA AR GAEL
Sefyllfa gyfredol	2018/2019	2019/2020	2020/2021						
76.3%	78.1%	79%	DIM DATA AR GAEL						
<p>Cydweithio ag ysgolion i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc Safon Uwch mewn ysgolion, gan gefnogi ysgolion i</p>	<p>Cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni/gofalwyr</p> <p><b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>								



gynnal dosbarthiadau llai os oes rhaid er mwyn diogelu'r pwnc.	Gwneud defnydd o gynnwys ymgyrchoedd i annog mwy i ystyried Cymraeg fel Safon Uwch ar wahanol gyfryngau. <b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
	Ceisio annog disgyblion i barhau gyda'r Gymraeg hyd Safon Uwch, drwy bwysleisio manteision y Gymraeg fel pwnc i'w astudio ymhellach yn dilyn TGAU. <b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
	Ceisio gwneud y pwnc yn apelgar a pherthnasol i ddisgyblion – drwy sicrhau dulliau dysgu ac addysgu amrywiol a defnydd effeithiol o adnoddau perthnasol yn yr ysgolion. <b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
Sicrhau nad oes yr un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg	Monitro cofrestriadau ysgolion, a darparu ôl-ofal priodol i gynnig cefnogaeth i hwyr-ddyfodiaid i gynnal eu sgiliau yn yr ysgolion, a monitro cofrestriadau ysgolion. <b>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Ymgynghorwyr GwE/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
<b>DEILLIANT 4: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD</b>	
Cryfhau pontio a sicrhau dilyniant ieithyddol:	Cydweithio ar gynllun pontio tebyg i'r un a nodir yn neilliant 3, gan ganolbwyntio ar flynyddoedd 8 a 9. Grwpiau Ffocws i weld beth yw'r gofidiau/anawsterau maen nhw'n poeni amdanynt. Ystyried sut mae cryfhau'r neges o ran manteision dwyieithrwydd. Ystyried a oes modd cryfhau'r cysylltiad gyda'r cartref. Gweithio gydag adrannau penodol o fewn ysgolion all fod angen cymorth i'w cefnogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Anghenion hyfforddiant – sut hyfforddiant sydd ei angen, a monitro deilliannau unrhyw hyfforddiant a gynigir. Eglurder o ddisgwyliadau'r Awdurdod o ran ysgolion gosod targedau i ysgolion parthed gweithredu Polisi Iaith y Sir.
Cyrsiau Galwedigaethol	Sefydlu a chynnal partneriaeth gyda'r Darparwyr. Monitro'r ddarpariaeth ieithyddol, sefydlu cytundeb gwasanaeth sy'n driw i Bolisi Iaith y Sir. Eglurder o ran beth yw'r ddarpariaeth i gael ei chyfathrebu'n glir gyda rhieni a disgyblion.
Y Gymraeg (Safon Uwch)	Agenda genedlaethol – sut mae hyn yn berthnasol i Wynedd? Angen codi ymwybyddiaeth a marchnata'r pwnc. Unwaith eto, gwrando ar Lais y Disgyblion o ran beth

	sy'n apelio a beth nad sy'n apelio atynt, ac ystyried sut mae gweithredu ar hynny.
--	--

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn anelu i adfer a chynnal safonau trwy dargedu yr anghenion penodol sydd yn cael eu hamlygu, ac olrhain effaith y gweithredu i gydymffurfio gyda nod Polisi Iaith y Sir. Bydd dylanwad gadarnhaol y Gyfundrefn Addysg Drochi'n y Sir wedi'i gwreiddio a bydd effaith gadarnhaol i'w weld ar gynnydd y disgyblion. Bydd cynnydd amlwg yn niferoedd y dysgwyr fydd yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Data Allweddol

Fe welir bod maint y cohort sydd yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf yn sylweddol uwch yng Ngwynedd. Mae'r data isod yn ddata 2018/19 gan nad oes data mwy cyfredol ar gael. Bydd cynnal y safonau isod yn flaenoriaeth, ac fe fydd targedau yn cael eu pennu yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgolion.

% disgyblion (Cymraeg Iaith Gyntaf) ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	
PERFFORMIAD 2019	70.7%

% disgyblion (Ail Iaith) ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Ail Iaith (Cwrs Hir)	
PERFFORMIAD 2019	97.7%

### Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027
2027 - 2028	2028 - 2029	2029 - 2030	2030 - 2031	2031 - 2032

## Deilliant 5

### Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

#### Ble rydym ni nawr?

Cyflawnir prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd trwy:

- gefnogi datblygiad sgiliau i allu defnyddio'r Gymraeg
- drwytho'r dysgwyr mewn agweddau cadarnhaol o safbwynt Y Gymraeg
- cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd
- greu awydd i fod eisiau defnyddio'r Gymraeg

Mae ymroddiad a pherchnogaeth y tîm arweinyddiaeth ym mhob ysgol yn gadarn o'i phlaid ac â disgygliadau uchel o safbwynt ei gweithredu. Mae strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni.

Cynllunio pob ysgol yn fwriadus i gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Cefnogir pob cyfle i'r disgyblion ddefnyddio neu ymarfer yr iaith a'u cynorthwyo i sylweddoli bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Defnyddir data o Hunanasesiad Iaith Gymraeg y gweithlu i sicrhau fod unrhyw anghenion hyfforddi yn cael eu diwallu er mwyn cefnogi sgiliau llafar y disgyblion.

Caiff y Gwe Iaith ei gwblhau ddwy waith yn ystod blwyddyn addysgol. Gwneir defnydd o'r data i ganfod gwaelodlin o batrymau ac arferion ieithyddol dysgwyr oddi fewn a thu allan i furiau'r ysgol. Gwneir defnydd o'r data ynglŷn a'u hagweddau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer camau gweithredu pellach. Ni fu'n bosib i ysgolion gwblhau y Gwe Iaith o ganlyniad i'r Cyfnod Clo. Ni fu'n bosib defnyddio canlyniadau'r gwe i fesur effaith ymyrraethau'r flwyddyn ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, gan fod cwestiynau'r gwe iaith yn ymwneud a sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r data yn anghyflawn am 2019-2020.

Yn sgil y Cyfnod Clo, nid oedd modd gweithredu ymrwymadau hunanarfarniadau'r ysgolion mewn ymateb i'r Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd. Drwy gefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol, cyd-gynlluniwyd ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) i gryfhau defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Bu i rai clystyrau lwyddo i weithredu eu cynlluniau fel y bwriadwyd, ond ni fu hyn yn bosib ar draws pob clwstwr o fewn y Sir.

Arallgyfeiriwyd cefnogaeth y Cydlynwyr Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hybu'u sgiliau Llafaredd. Comisiynwyd ymgynghorydd llawrydd i

greu clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar i ddysgwyr (yn arbennig o aelwydydd di-Gymraeg).

Bydd cefnogaeth gyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn galluogi ysgolion i gyd-gynllunio ymyraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Bydd yr ysgolion yn ceisio sicrhau bod eu cynlluniau yn ceisio ymateb i sefyllfa'r Gymraeg yn y clwstwr yn sgil y Cyfnod Clo.

Yn sgil pandemig Covid-19, nid oes data meintiol ar gael i'w gynnwys yma. Byddwn yn defnyddio data canlyniadau'r Gwe Iaith i fesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein disgyblion.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Gweler ein cynllun gweithredu isod:

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Parhau gyda gwaith y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith i arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.	Datblygu ymhellach rôl y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith gan sicrhau bod negesuon a gwybodaeth perthnasol ynglŷn â chyflawni'u gofynion yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn yr ysgolion. <b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b>
	<p>Cynnal cyfarfodydd tymhorol i rannu'r wybodaeth mwyaf diweddar efo'r cyd-gysylltwyr iaith ac yn annog yr ysgolion cynradd i wneud defnydd o ddeunyddiau a geir ar wefan y Siarter Iaith a sianeli Seren a Sbarc. <b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Arfon(DJ)</b></p> <p>Hyrwyddo ymhellach werth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl yn y ddwy iaith. <b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p> <p>Hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned. <b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) Hunaniaith Byw'n Iach Urdd</b></p>

	<p><b>Ffermwyr Ifanc</b> <b>Gwasanaeth Ieuencid</b></p> <p>Mapio'r ddarpariaeth gyfredol sydd ar gael i blant oed ysgol ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth a'r ysgol drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau ieuencid megis Yr Urdd a Menter Iaith.</p> <p><b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) Rhanddeiliaid - gweler uchod</b></p>
Cyngor iaith yn gweithredu mhob ysgol ac yn glir o'u rôl a'u dyletswyddau.	<p>Sicrhau bod llais y disgybl yn ganolog yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol. Defnyddio data'r Gwe Iaith fel gwaelodlin wrth gytuno ar gamau gweithredu.</p> <p>Datblygu rôl arweinwyr a llysgenhadon iaith yn yr ysgol gyda disgwyliadau penodol.</p> <p>Cynnal a hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol Cymraeg yn yr ysgol.</p> <p>Cyd-gynllunio i boblogeiddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar y cyfryngau cymdeithasol.</p> <p><b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) Staff Ysgolion</b></p>
Gweithgareddau wedi'u trefnu i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.	<p>Trefnu amserlen o weithgareddau i hybu'r iaith ac i ennyn bwrlwm yn y Gymraeg mewn Addysg yn y CS.</p> <p><b>Cydlynwyr iaith /Mentrau Iaith/ Cefnogaeth Gorfforaethol / Cydlynnydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
Manteisio ar gyfleoedd yn yr ysgol gynradd ac uwchradd i gydweithio gydag asiantaethau allanol i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.	<p>Cydweithio gydag asiantaethau allanol/cenedlaethol i hybu chwaraeon a chyfleoedd celfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p><b>Cydlynnydd Siarter Iaith Cynradd/Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</b></p>

#### DEILLIANT 5: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD

Cryfhau rôl y Cydlynwyr Iaith.	Sicrhau bod strwythur clir i rôl Cydlynwyr Iaith i sicrhau rhaglen o weithgareddau pwrpasol, yn atebol i ddeilliannau'r CSGA. Arferion da i gael eu rhannu ymysg dalgylchoedd – angen am fwy o atebolrwydd a strwythur clir wrth gynllunio ar gyfer gwariant unrhyw grant posibl ddaw o du'r Llywodraeth. Bydd hynny yn osgoi cynllunio heb weledigaeth a phwrpas clir.
Cryfhau Llais y Disgybl	Beth yn union maen nhw'n ei deimlo all ddylanwadu arnynt? Annog cydweithio rhwng ysgolion o fewn y Sir – er mwyn rhannu arferion da a chreu cysylltiadau fydd yn hybu

	defnydd o'r iaith. Ystyried a oes lle i ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r Sir? Sut?
Rôl Llysgenhadon iaith	Ail sefydlu a chryfhau system o Lysgenhadon iaith yn yr ysgolion. Statws i'r rôl, yn union fel statws Swyddogion. Gwranddo ar syniadau gan ddisgyblion i weld sut gallai hyn edrych – pa fodel fyddai orau? Creu ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at yr iaith ac i ddylanwadu ar rai iau yn yr ysgol. Archwilio'r posibilrwydd o gyd-weithio gydag ysgolion cynradd? Potensial ar gyfer hynny yn sicr.
<b>DEILLIANT 5: CYNLLUN GWEITHREDU SIARTER IAITH</b>	
Hybu cydweithio a chynllunio dalgylchol er mwyn ehangu'r mynediad at ddiwylliant Cymraeg a Chymreig.  Magu mwynhad at weithgareddau trwy gyfrwng Y Gymraeg	Hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg-ystyried cynnal gweithdai creu podlediadau;gweithdai creu clipiau ffilm, rhaglenni radio, gweithgareddau flogio'n ddalgylchol; Cynllun Ynni Da- hyrwyddo Cerddoriaeth Cymraeg dros Y We gyda fideos arbennig ar gyfer disgyblion ysgol, gweithdai cerddoriaeth, ukulele neu gyfansoddi/sesiynau rhithiol yn cynnig sesiynau , actio, sgriptio, chwarae rôl.
Cryfhau'r berthynas o gydweithio a sgwrsio'n anffurfiol rhwng disgyblion cynradd/uwchradd	Adnabod sut y gall iaith disgyblion ddylanwadu ar ei gilydd  Cryfhau'r berthynas o gydweithio cynradd/uwchradd e.e.cynnal cyfarfodydd cyswllt rhithiol/cyfarfodydd wyneb yn wyneb gan sefydlu'r arferiad o ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion blwyddyn 6 a 7.  Atgyfnerthu sgiliau TGCh.  Sefydlu arferiad o gynnal cyfarfodydd 'Gwefeillio' rhwng disgyblion blwyddyn 6 a 7 er mwyn sefydlu patrwm o sgwrsio'n anffurfiol trwy gyfrwng Y Gymraeg cyn i'r plant o'r adran gynradd drosgwlyddo i'r uwchradd.
Hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg	Cynnal gweithdai efo staff a disgyblion ysgolion cynradd uwchradd gyda Mererid Hopwood aDr Enlli Thomas (pwysigrwydd dwyieithrwydd) er mwyn;  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd siarad Cymraeg a'r buddion o fod yn</li> </ul>

	<p>ddwyieithog mewn byd amlieithog ac amlddiwylliannol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anelu at gynnal sgwrs ddwyieithog</li> <li>• Disgyblion yn ymateb i ddata'r Gwe laith ac yn meddwl am ffyrdd o drosglwyddo'r negesuon a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.</li> </ul>
--	---

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Bydd prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd wedi'u gwreiddio ac yn rhan ganolog i Gynlluniau Datblygu pob ysgol. Bydd ymroddiad a pherchnogaeth gadarn ohonynt, a bydd disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu. Bydd strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau eu perchnogaeth lawn ohoni. Bydd cyfleodd i ddefnyddio'r iaith wedi'u mapio'n glir, a bydd y gweithlu a'r disgyblion yn hyderus yn eu gallu a'u hawydd i ddefnyddio'r iaith ym mhob sefyllfa. Bydd y data a gesglir o'r Gwe laith yn cael ei ddefnyddio fel arf cynllunio ar gyfer camau gweithredu pellach. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

**Data Allweddol**

Bydd y data ar gyfer yr adran hon yn cael ei boblogi maes o law, i gynnwys: data'r Gwe laith, data mudiadau ac asiantaethau sy'n cydweithio ac yn darparu cyfleoedd gwahanol i blant a phobol ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. yr Urdd, gweithgareddau Menter Iaith Bangor, Hunaniaith, Clybiau Ieuencid, CFFI, Cwmnïau drama, Clybiau chwaraeon ayyb, data gwirfoddolwyr e.e. gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â chlybiau garddio, chwaraeon, darllen ayyb, data gan y Mudiad Meithrin, Dechrau'n deg, ystadegau/canrannau cyfrwng pwnc.

**Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol**

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027
2027 - 2028	2028 - 2029	2029 - 2030	2030 - 2031	2031 - 2032

## Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)**

### Ble rydym ni nawr?

Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gofyn o fewn Deddfwriaeth ADY (2018) sydd yn dod i rym ym Medi 2021 yn gofyn i sicrhau fod dysgwyr yn gallu cael darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob aelod o staff o fewn y Gwasanaeth ADY a CH yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu yn ddwyieithog. Mae cyfrwng iaith y mewnbwn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigolion.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI’N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI’N HAMCANION
<p>Parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o’r daith addysgol.</p>	<p>Pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
	<p>Asesu maint a gallu’r Gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio’r canlyniadau i gynllunio’r gweithlu’n briodol.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
	<p>Cymryd camau i gynnal archwiliad blynyddol o wasanaethau ADY a Chynhwysiad os bydd bylchau’n ymddangos yn y ddarpariaeth Gymraeg.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
	<p>Monitro, asesu’r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a’u teuluoedd, a pharhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy’n gwbl ddwyieithog.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
	<p>Ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am gymorth a chefnogaeth gan siroedd eraill y</p>



	<p>rhanbarth sydd yn wynebu anawsterau o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
<p>Cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.</p>	<p>Ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
	<p>Cynnal archwiliad o'r adnoddau dysgu sydd eu hangen ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael o fewn yr AALL er mwyn cefnogi dysgwyr ADY, yn ogystal ag edrych ar y ffordd mae adnoddau'n cael eu rhannu'n fewnol ac yn rhanbarthol.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
<p>Gweithredu'r Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.</p>	<p>Defnyddio canfyddiadau arolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector ADY.</p> <p><b>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</b></p>
<p><b>Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?</b></p>	
<p>Gweler Cynlluniau Gweithredu ADY y Sir.</p>	

## Deilliant 7

### Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

#### Ble rydym ni nawr?

Disgwylir i weithlu addysg (athrawon, cymorthyddion, cymorthyddion cegin) ddiweddarau Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn addysgol er mwyn sicrhau data sydd yn gyfredol, i allgoui cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer, fydd yn eu gallgoui i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu yn y broses recriwtio, a thargedau yn cael eu monitro i sicrhau cynnydd yn y nifer.

Yn sgil yr Awdit Sgiliau gyda gweithlu ein hysgolion a gynhaliwyd ar draws Rhanbarth y Gogledd yn 2017-18, mae gwaith manwl wedi ei gyflawni i edrych ar ganfyddiadau'r Awdit, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei angen ar weithlu ein hysgolion. Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd yr hyfforddiannau canlynol:

- Gloywi Iaith: Ysgol Glan y Môr, Pwllheli
- Gloywi Iaith: Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon
- Parhad o gynlluniau peilot i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu yn Ysgol Friars ac Ysgol Uwchradd Tywyn.

#### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn defnyddio canlyniadau Holiadur Iaith y Gweithlu er mwyn cynllunio cefnogaeth briodol ac yn monitro cynnydd unrhyw gynlluniau a weithredir.

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Gwneud defnydd o ddata Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu i lywio gwaith cynllunio'r gweithlu a rhagdybio faint o athrawon fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ragdybiaethau.	Ymwybyddiaeth glir o'r nifer o swyddi gwag sydd o fewn ysgolion yr Awdurdod yn ôl y math o ysgol ac ystyried beth yw'r tueddiadau o ran swyddi gwag. <b>GwE/Llywodraeth Cymru/ALI</b>
	Ymwybyddiaeth glir o'r nifer o athrawon a phenaethiaid sydd eu hangen fesul math o ysgol (a phwnc os yn berthnasol) yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol er mwyn ymateb i dargedau. <b>GwE/Llywodraeth Cymru/ALI</b>
Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.	Datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi. <b>Pennaeth Addysg(GJ)</b>
	Ymrwymo i feithrin cynhwysedd arweinyddiaeth drwy annog a chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu ei botensial arweinyddiaeth ei hun a photensial

	<p>arweinyddiaeth ymarferwyr eraill, gan annog staff i fanteisio ar y cyfleoedd DPP effeithiol hyn.</p> <p><b>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>
	<p>Llywodraethwyr ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth o ofynion ieithyddol swyddi sydd yn cael eu hysbysebu ac o oblygiadau methu llwyddo i benodi yn unol â gofynion ieithyddol y swydd.</p> <p><b>Swyddog Adnoddau Cynorthwyol, Addysg(BMJ)/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</b></p>
<p>Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi.</p> <p><b>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</b></p>
<p>Mewn cydweithrediad gyda chonsortia rhanbarthol, cynorthwyo athrawon a gweithwyr cymorth i wella'u sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio cyrsiau fel Cynllun Sabothol a chynllunio ôl-ofal i unigolion ar ddiwedd cwrs.</p>	<p>Ymwybyddiaeth glir o faint o weithwyr cymorth dysgu sydd eu hangen o fewn yr Awdurdod, a sicrhau bod cymorth ar gael i gynnal sgiliau Cymraeg y gweithwyr.</p> <p><b>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Pennaeth Addysg (GJ)</b></p>
	<p>Sicrhau bod staff sydd angen cynyddu a gwella'u sgiliau iaith yn derbyn anogaeth a chymorth i ddatblygu'u sgiliau dwyieithog hyd at safon addysgu.</p> <p><b>Pennaeth Addysg(GJ)/ GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol</b></p>
	<p>Rhaeadru gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael ar gyfer athrawon, hyfforddwyr, darlithwyr a chynorthwywyr dosbarth sydd eisieu gwella eu Cymraeg a magu hyder yn yr iaith.</p> <p><b>Pennaeth Addysg(GJ)/ GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol</b></p>
	<p>Cynnal trafodaethau ar sut orau i ddatblygu a gloywi iaith ymarferwyr addysg, mamiaith ac ail iaith, er mwyn iddyn nhw deimlo'n hyderus i addysgu a gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p><b>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</b></p>

	<p>Parhau i gydweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor er mwyn sicrhau bod y Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.</p> <p><b>GwE</b></p> <p>Annog mwy o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli i loywi sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth 'Cymraeg i Oedolion' a darpariaeth a geir gan y Cyngor yn uniongyrchol.</p> <p><b>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</b></p> <p>Cynnal a hyrwyddo DPP sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion ac ymchwil ddiweddar wrth wneud hynny.</p> <p><b>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</b></p> <p>Datblygu hyfforddiant i gymorthyddion ac athrawon gan gynnal gweithdai cydweithredol ar ddatblygu cyfleoedd Llafaredd cyfoethog ac estynedig mewn dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.</p> <p><b>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</b></p>
<p>Cefnogi gweithlu'r ysgolion i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, i loywi iaith, yn ogystal â'u gallu i ddysgu ac addysgu yn Gymraeg a dwyieithog.</p>	<p>Sicrhau bod gan y gweithlu ddisgwyliadau cadarn a theimlad o falchder yn llwyddiant yr ysgol i weithredu'r Strategaeth.</p> <p>Darparu hyfforddiant perthnasol sydd yn ateb anghenion penodol ac yn cefnogi staff i ddatblygu a meithrin eu hyder i ddefnyddio'r iaith.</p> <p>Cefnogi'r gweithlu i allu cyflwyno pynciau yn gynyddol ac yn fwy effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddarparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg.</p> <p><b>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion</b></p>

	<p>Darparu hyfforddiant addysg drochi priodol i addysgwyr y sir i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi.'</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion</p>
--	---

<b>DEILLIANT 7: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD</b>	
Anghenion hyfforddi	Gwneud defnydd o ddata Awdit Sgiliau Iaith – adnabod anghenion a chynllunio ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

**Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Byddwn yn cydweithio gydag adrannau'r cyngor ar brosiect Dynodiadau iaith. Bwriadwn gryfhau'r defnydd ohonynt i adnabod anghenion ieithyddol Gweithlu Addysg Gwynedd, gan weithredu cynlluniau priodol mewn ymateb i'r anghenion a amlygir.

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

### **CYLCH GORCHWYL FFORWM IAITH GWYNEDD**

#### PWRPAS:

I gymryd trosolwg o holl agweddau'r CSGA, gan sicrhau comisiynu addas, cynnydd ar gamau gweithredu a deilliannau, a chyd-lynedd y gweithredu i gyflawni'r deilliannau fel un cyfanwaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o'r holl ddeilliannau
- Darparu arweiniad a chynghor cyffredinol i bob deiliant
- Briffio a herio cynnydd ar gamau gweithredu
- Comisiynu gwaith gan Fyrddau Prosiect eraill a gwasanaethau eraill
- Awdurdodi unrhyw newidiadau o bwys i ddeiliant unigol neu CSGA fel cyfanwaith
- Ystyried unrhyw gyfyngiadau allanol ar y deilliannau neu'r CSGA fel cyfanwaith
- Adnabod a dileu unrhyw rwystrau mewnol neu allanol i ddeiliant unigol neu'r CSGA fel cyfanwaith.

#### AMLDER CYFARFODYDD:

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod yn chwarterol. Pe cyfyd materion fydd angen eu dyrchafu o fyrddau prosiect unigol, yna bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

#### RÔL:

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi ei awdurdodi i weithio o fewn i goddefiannau amser, cyllid ac ansawdd i sicrhau y cyflawnir deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.

Disgwylir i'r Bwrdd Rhaglen liniaru unrhyw risgiau sydd yn codi, ynghyd â monitro perfformiad a chynnydd o safbwynt deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn gweithredu fframwaith llywodraethu priodol i gefnogi'r CSA er mwyn cyrraedd y deilliannau disgwylidig.

#### DOGFENNAETH:

Bydd dogfennau perthnasol ar gyfer sylw aelodau yn cael eu dosbarthu oddeutu ythnos o flaen llaw. Bydd dogfennaeth yn cael eu dosbarthu yn electroneg, a bydd copi cael ar gael yn ôl yr angen.


#### TREFNIADAU ADRODD:

Disgwylir i allbwn cyfarfodydd y Bwrdd gael eu cofnodi a'u cadw fel rhan o ddogfennaeth y CSGA. Bydd dogfennaeth cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen a'r allbynnau yn gyfrwng i lunio Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar weithrediad y CSGA. Caiff Adroddiad Blynyddol CSGA ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Iaith cyn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.

#### AMSERLEN:

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn para hyd y CSGA, sef 10 mlynedd. Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu bob 2 flynedd, neu'n achlysurol yn ôl yr angen

## STRWYTHUR ARFAETHEDIG CSGA



## AELODAETH FFORWM IAITH GWYNEDD

### FFORWM IAITH GWYNEDD (BWRDD RHAGLEN)

Aelodaeth:

Garem Jackson(Cadeirydd)

Debbie Anne Jones (Is-Gadeirydd)

Cemlyn Rees Williams

Nia Jeffreys

Cai Larsen

Gwern ap Rhiart

Diane Jones

Diane Jones

Rhian Parry Jones

Cynrychiolydd Hunaniaith

Ffion Edwards Ellis

Rhian Parry Jones

Pennaeth Addysg,

Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg

Aelod Cabinet Addysg

Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (Iaith)

Pwyllgor Iaith

Arweinydd Deilliant 1 CSGA

Arweinydd Deilliant 2 CSGA

Arweinydd Deilliant 3 CSGA

Arweinydd Deilliant 4 CSGA

Arweinydd Deilliant 5 CSGA

Arweinydd Deilliant 6 CSGA

Arweinydd Deilliant 7 CSGA

## EITEM 5 B

<b>Pwyllgor</b>	Pwyllgor Iaith
<b>Teitl yr Adroddiad</b>	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	22 Mehefin 2021
<b>Awdur</b>	Debbie Anne Williams Jones Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg
<b>Pennaeth Addysg</b>	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
<b>Aelod Cabinet Perthnasol</b>	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

### 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae addysg drochi yn greiddiol i bolisi iaith addysg Gwynedd a'r CSGA ar ei newydd wedd, ac o ganlyniad, mae'r weledigaeth newydd a gyflwynir ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt, yn greiddiol i gyflawniad a llwyddiant y CSGA a'r deilliannau cysylltiedig dros y ddeng mlynedd nesaf.

### 2. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 2.1 Yn yr adroddiad hwn a'r atodiadau cysylltiedig, cyflwynir gerbron y Pwyllgor Iaith weledigaeth a chyfundrefn addysg drochi arfaethedig newydd ar gyfer Gwynedd
- 2.2 Yn sgil yr adroddiad hwn, mae'r Aelod Cabinet Addysg yn awyddus i dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Iaith ar ei weledigaeth ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt:

*"Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.*

*Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael Y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn Y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd, ac yn gyfrwng i'w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu."*



**Cemlyn Rees Williams**  
Aelod Cabinet Addysg

### 3. YR ACHOS DROS NEWID



3.1 Gellir crynhoi'r prif achos dros newid a'r angen am weledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi Gwynedd i'r meysydd canlynol, ac ymhelaethir arnynt ymhellach isod:

- Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog
- Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cyfle i greu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf
- Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19
- Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot a weithredwyd ar gais y Cabinet.

### 3.2 Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog

- Yr angen i'r gyfundrefn hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg tra ar yr un pryd gadw cysylltiad gyda'u hysgol leol a'u cyfoedion.
- Yr angen i'r gyfundrefn allu cynorthwyo rhieni a gofawyr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.

### 3.3 Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth

- Yr angen i'r gyfundrefn ymateb i anghenion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
- Yr angen i fuddsoddi yn yr is-adeiledd ar gyfer y gyfundrefn gan gynnwys adnoddau digidol.

### 3.4 Gweithio mewn partneriaeth

- Yr angen i'r Adran Addysg ac ysgolion fod yn gweithio mewn partneriaeth gan gydberchnogi'r gyfundrefn addysg drochi.
- Yr angen i'r gyfundrefn addysg drochi allu rhoi arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.

### 3.5 Cyfle i greu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf

- Cyfle i fuddsoddi £1.1miliwn o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn y gyfundrefn addysg drochi gan wella'r amgylchedd dysgu a'r is-adeiledd.

### 3.6 Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19

- Darpariaeth addysg gyfunol h.y. bu i'r Canolfannau Iaith ddarparu addysg gyfunol yn sgil y cyfnodau clo niferus, sef dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â gwaith ar Google Classrooms. Bu i hyn gael ei gydnabod fel arfer rhagorol gan Estyn.
- Yr ysgolion yn galw am arbenigedd addysg drochi ac adnoddau i gefnogi'r Gymraeg i gael ei ledaenu ar draws y gyfundrefn.

### 3.7 Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot


- Bu i'r peilot amlygu'r angen i ystyried lles y dysgwyr, a chadw cysylltiad gyda'u cyfoedion; nifer yn ei chael hi'n anodd i ymdoddi'n ôl i'w hysgol leol ar ôl cyfnod mewn Canolfan.
- Yr angen i gryfhau'r berthynas gydag ysgolion i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i ddatblygiad iaith.

3.8 Manylir ar yr amcanion fydd yn sail i'r weledigaeth yn Atodiad 1, sef:

- Addysgu a Dysgu
- Amgylchedd Ddysgu
- Cwricwlwm
- Cefnogaeth i Ddysgwyr

- Adnoddau Cyllidol

- 3.9 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, y pwrpas, y nod a'r amcanion, ein gobaith yw buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd, er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.
- 3.10 Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r cyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd, sydd eto wedi ei leoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.
- 3.11 Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llangybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.
- 3.12 Yn sgil y buddsoddiad, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.



#### 4. Y WELEDIGAETH AR GYFER Y DDARPARIAETH DROCHI

- 4.1 Yn y gyfundrefn newydd, byddai'r ddarpariaeth addysg drochi cynradd ac uwchradd ar safle yn ddarpariaeth 4 niwrnod yr wythnos, am gyfnod o 8-10 wythnos. Byddai hyn yn fodd o sicrhau bod modd cynnal y ddarpariaeth drochi'n gyflawn ar gyfer y 3 tymor ysgol.
- 4.2 Byddai dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod pob wythnos, a byddai hynny'n fodd i'r dysgwyr barhau â chyswllt efo'u hysgol leol, gan sicrhau parhad i'w haddysg drochi yn y Gymraeg yno, ynghyd â chael mynediad llawn i'r cwricwlwm.
- 4.3 Am 1 diwrnod yr wythnos, pan fo'r dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol, byddai staff y gyfundrefn addysg drochi ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ysgolion, yn gallu cynorthwyo yn y safleoedd addysg drochi eraill, yn darparu cefnogaeth o bell i'r dysgwyr, rhoi arweiniad

i'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr, yn ogystal â llunio a darparu adnoddau mewn ymateb i angen ym maes addysg Gymraeg ac addysg drochi yn fwy cyffredinol.

4.4 Ar gyfer y cyfnod fydd yn weddill o bob tymor ble gwelwn y dysgwyr wedi dychwelyd i'w hysgolion lleol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi yn gweithredu rhaglen lawn o ddysgu cyfunol, sef addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â dysgu o bell drwy Google Classrooms i sicrhau cynhaliadaeth ychwanegol i'r dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud cynnydd pellach i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol.

## **5. CYLLIDO'R WELEDIGAETH TUAG AT 2032 A THU HWNT**

5.1 Bwriedir i'r Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt gael ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- Grant GGA
- Ysgolion (canolog)
- Adran Addysg

## **6. I GRYNHOI**

6.1 Yn anad dim, gwelir y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt yn greiddiol i atal y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd drwy:

- ddarparu addysg drochi arloesol a rhagorol i newydd-ddyfodiaid y Sir fydd yn eu galluogi i ffynnu gyda'u cyfoedion yn ein cyfundrefn addysg ddwyieithog a thrwy hynny eu bod yn llwyddo i ymdoddi i gymdeithas Gymraeg a Chymreig eu hysgol leol heb deimlo eu bod yn 'wahanol' neu wedi eu heithrio o brofiadau arferol eu cyfoedion;
- darparu cefnogaeth i deuluoedd gofleidio'r Gymraeg, cefnogi addysg eu plant, ac elwa o brofiadau diwylliannol a chymunedol drwy gyfrwng Y Gymraeg;

## **7. CAMAU NESAF**

7.1 Yn ystod mis Mehefin, bwriedir ymgysylltu'n anffurfiol ar y weledigaeth ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt gyda rhan-ddeiliaid allweddol

7.2 Bydd yr Aelod Cabinet Addysg yn ystyried y sylwadau a dderbynnir fel rhan o'r ymgysylltu anffurfiol, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Iaith, cyn cyflwyno'r weledigaeth gerbron y Cabinet.

## **8. ARGYMHELLION**

8.1 Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno sylwadau ar y weledigaeth arfaethedig ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.



# Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

tuag at 2032 a thu hwnt



# Rhagair

## Cemlyn Rees Williams

### Aelod Cabinet Addysg



*“Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth.*”

*Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd ac yn gyfrwng i’w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”*

## CYMRAEG 2050

*“Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.”*

*Nod Llywodraeth Cymru yw... creu system addysg statudol sy’n cynyddu’r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.*

## Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050



# Pwrpas y **gyfundrefn addysg drochi** tuag at 2032 a thu hwnt yw:

- **Hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg.**
- Cefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol i gynyddu eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol.
- **Arfogi a chefnogi gweithlu ysgolion Gwynedd i weithredu egwyddorion addysg drochi yn y Cyfnod Sylfaen.**
- Darparu arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i weithlu ysgolion Gwynedd i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.
- **Cynorthwyo rhieni a gofalwr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.**





## Y weledigaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw:

Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o'r radd flaenaf sy'n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i symud ymlaen.

Darparu trosglwyddiad effeithiol o'r addysg drochi i'r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd ac yn gyfrwng i'w galluogi i lwyddo a ffynnu.

# Y Weledigaeth

Ein nod yw cael cyfundrefn addysg drochi sydd yn rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.

Hoffem weld cyfundrefn sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.



## Ein Nod







**Dyma'r amcanion fydd yn sail i'r gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt:**

### **1. ADDYSGU A DYSGU**

1. Cyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn seiliedig ar arbenigedd ac yn cyfoethogi'r profiad addysgu a dysgu yn ogystal ag annog rhagoriaeth yn y maes.
2. Y deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd, a thrwy hynny eu gwneud yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu yng nghyfundrefn addysg ddwyieithog Gwynedd a thrwy gydol eu hoes.
3. Cyfundrefn addysg drochi gyfoes sydd yn dathlu hunaniaeth, ymwybyddiaeth o iaith a threftadaeth, gan ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

### **2. AMGYLCHEDD DYSGU**

1. Amgylchedd Dysgu o'r radd flaenaf, gyda chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.
2. Amgylchedd Dysgu gynhwysol sydd yn ymateb i anghenion amrywiol gan gynnwys dysgwyr bregus a dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
3. Amgylchedd Dysgu sydd yn manteisio ar y dechnoleg fwyaf cyfoes gan roi profiadau a sgiliau amrywiol i ddysgwyr wrth gaffael iaith.

### **3. CWRICWLWM**

1. Cyfundrefn addysg drochi gadarn a gwydn sy'n gallu addasu i gyfarch unrhyw newidiadau perthnasol ym myd addysg.
2. Darpariaeth addysg drochi gyfoes sydd yn addas i bwrpas ar gyfer 2032 a thu hwnt sy'n adlewyrchu gofynion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i gefnogi a darparu'r cwricwlwm.





#### 4. CEFNOGAETH I DDYSGWYR

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n cynnig darpariaeth fugeiliol ragorol gan roi anghenion y dysgwr yn ganolog.
2. Cyfundrefn addysg drochi sy'n sicrhau mynediad at gymorth a chefnogaeth o ansawdd uchel sydd wedi ei gynllunio o amgylch y dysgwr.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i sicrhau cymorth a chefnogaeth priodol i'r dysgwr, rhieni a gwarcheidwaid yng nghyd-destun y Gymraeg.

#### 5. ADNODDAU CYLLIDOL

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau cyllidol, gan sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddysgwyr.
2. Cyfundrefn addysg drochi hyfyw tuag at 2032 a thu hwnt wedi ei seilio ar grwpiau dysgu gwydn, cyllideb a chynllun busnes cadarn.
3. Cyfundrefn sydd wedi manteisio ar y cyfle i ddenu buddsoddiad o £1.1m ar gyfer gwella'r ddarpariaeth addysg drochi trwy Grant Cyfalaf Addysg Gymraeg.

## Cyflawni'r Nod, Y Weledigaeth a'r Amcanion

Byddwn yn buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd er mwyn sicrhau amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.


Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r chyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd sydd eto wedi ei leoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.


Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llangybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

Yn sgil y buddsoddiad cyfalaf, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd, gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.

O ganlyniad, yn y drefn newydd bydd modd cynnig y ddarpariaeth i fwy o ddysgwyr.

## Yn sgil yr uchod, bydd cyfundrefn addysg drochi newydd Gwynedd yn cynnwys 6 safle fel a ganlyn:





## Dalgylchoedd a wasanaethir

Mae'r tabl isod yn nodi pa ddalgylchoedd y byddai safleoedd Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn eu gwasanaethu'n gyffredinol. Bydd hyblygrwydd rhwng yr holl safleoedd o ran derbyn dysgwyr o wahanol ddalgylchoedd yn ddibynnol ar niferoedd, ac yn arbennig y dalgylchoedd hynny sydd yn ffinio gyda sawl safle e.e. Ardudwy a Dyffryn Nantlle.

Dalgylchoedd	Bangor BI 5-9	Eifionydd BI 5-9	Tywyn BI 5-9	Maesincla BI 2-4	Llangybi BI 2-4	Dolgellau BI 2-4
Dyffryn Ogwen	Orange			Grey		
Bangor	Orange			Grey		
Brynrefail	Orange			Grey		
Syr Hugh Owen	Orange			Grey		
Dyffryn Nantlle	Orange			Grey	Grey	
Botwnnog		Orange			Grey	
Glan y Môr		Orange			Grey	
Eifionydd		Orange			Grey	
Y Moelwyn		Orange				Grey
Ardudwy		Orange	Orange			Grey
Bro Idris			Orange			Grey
Y Berwyn			Orange			Grey
Tywyn			Orange			Grey

## Y Ddarpariaeth

Bydd y ddarpariaeth addysg drochi cynradd ac uwchradd yn ddarpariaeth 4 niwrnod yr wythnos, am gyfnod o 8-10 wythnos. Bydd hyn yn fodd o sicrhau bod modd cynnal y ddarpariaeth drochi'n gyflawn ar gyfer y 3 tymor ysgol.

Bydd dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod pob wythnos, a bydd hynny'n fodd i'r dysgwyr barhau â chyswllt efo'u hysgol leol, gan sicrhau parhad i'w haddysg drochi yn y Gymraeg yno, ynghyd â chael mynediad llawn i'r cwricwlwm.


Am 1 diwrnod yr wythnos, pan fo'r dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ysgolion, yn gallu cynorthwyo yn y safleoedd addysg drochi eraill, yn darparu cefnogaeth o bell i'r dysgwyr, rhoi arweiniad i'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr, yn ogystal â llunio a darparu adnoddau mewn ymateb i angen ym maes addysg Gymraeg ac addysg drochi yn fwy cyffredinol.

Ar gyfer y cyfnod fydd yn weddill o bob tymor ble gwelwn y dysgwyr wedi dychwelyd i'w hysgolion lleol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi yn gweithredu rhaglen lawn o ddysgu cyfunol, sef addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â dysgu o bell drwy Google Classrooms i sicrhau cynhaliadaeth ychwanegol i'r dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud cynnydd pellach i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol. Bydd modd darparu addysg gyfunol ar unrhyw adeg i ddysgwyr sydd yn parhau i fod angen cymorth ychwanegol wedi iddynt dychwelyd i'w hysgol leol ar ôl treulio 8-10 wythnos yn y ddarpariaeth addysg drochi.

### Modelu'r ddarpariaeth



Dysgwyr yn mynychu'r ddarpariaeth Addysg Drochi gyfagos am 4 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos




Dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos cyn dychwelyd i'w hysgol leol yn llawn amser.





## Strwythur Staffio



# Ariannu

Caiff y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- **Grant GGA**  
Dyma'r grant craidd ar gyfer cyllido'r Gyfundrefn Addysg Drochi, fodd bynnag, yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn costau, nid yw'r grant hwn ar ei ben ei hun yn ddigonol ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth yn llawn.
- **Ysgolion**  
Ystyrir y gyfundrefn addysg drochi yn wasanaeth arbenigol a chwbl hanfodol i weithrediad polisi iaith addysg Gwynedd. O ganlyniad, bwriedir gofyn am gyfraniad ariannol gan yr ysgolion fydd yn fodd o sicrhau cyfundrefn addysg drochi addas i bwrpas tuag at 2032 a thu hwnt.
- **Adran Addysg**  
Mae'r Adran Addysg eisoes yn cyfrannu tuag at gostau'r gwasanaeth, a bydd y cyfraniad hwn yn parhau, drwy:
  - Arian cyfatebol i'r grant GGA
  - Gyfrannu at gostau cludiant i'r ddarpariaeth drochi.



## Mesur Llwyddiant:

Byddwn yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi yn benodol drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:  
Nifer / % newydd-ddyfodiaid sydd yn cyrraedd Lefel 2 (llafaredd) ar ddiwedd eu cyfnod trochi dwys.

**Byddwn hefyd yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi o ystyried cyfraniad y gyfundrefn i ddeilliannau canlynol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod:**

- Mwy o blant dosbarth derbyn/ 5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 2)
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. (CSGA: Deilliant 3)
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 4)
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. (CSGA: Deilliant 5)
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (CSGA: Deilliant 6)





## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA):

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn ddogfen statudol o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Mae'r CSGA yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun addysg Gymraeg. Yng Ngwynedd, caiff y CSGA ei ddehongli yng nghyd-destun Polisi Iaith Addysg y Sir. Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed berthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pwrpas y Gyfundrefn Addysg Drochi yw hyrwyddo cyflawniad dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg drwy ddarpariaeth trochi dwys, ynghyd â darparu cefnogaeth i ddysgwyr sydd angen hwb ychwanegol o safbwynt eu hyder neu eu sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol. Mae darpariaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol, ynghyd â chyfrannu at ffyniant ein dysgwyr yn y gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd.



*“Rwy'n falch o gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.*

Mae Adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae hi'n gyfnod hynod o gyffrous i'r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd, ac yn gyfrwng i'w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a'u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo'r sgiliau hynny'n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.”

Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams,  
Aelod Cabinet Addysg.



